Adroddiad Comisiynwyr Plant y Deyrnas Unedig ar gyfer y Gweithgor Cyn-Sesiynol

Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn

Archwiliad o Bumed Adroddiad Cyfnodol Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

NICCY
PROMOTING THE RIGHTS OF CHILDREN & YOUNG PEOPLE

Children's Commissioner
Promoting and protecting childen's rights

SCCYP
Scotland's Commissioner for Children & Young People

1. Cyflwyniad

a. Hwn yw'r adroddiad ar y cyd gan bedwar Comisiynydd Plant y Deyrnas Unedig ar gyfer archwiliad Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn o Bumed Adroddiad Cyfnodol y Deyrnas Unedig o dan Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn. Mae ein hymdrech ar y cyd yn tystio i'n hymrwymiad i gydweithio i wella bywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

b. Mae'r Comisiynwyr yn ddeiliaid annibynnol swyddi cyhoeddus y mae eu cylchoedd gorchwyl perthnasol yn cwmpasu Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ond heb gynnwys tiriogaethau sy'n ddibynnol ar y Goron na Thiriogaethau Tramor. Mae swyddogaethau statudol y Comisiynwyr yn amrywio, ond maent i gyd yn troi o gwmpas hyrwyddo ac amddiffyn hawliau'r plant sydd o fewn eu hawdurdodaeth, yn arbennig o dan Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn. Barn a phrofiadau plant[1] sy'n hysbysu gwaith yr holl Gomisiynwyr.

c. Oddi mewn i'r Deyrnas Unedig mae amrywiaeth o swyddogaethau'r llywodraeth ganolog bellach wedi'u datganoli i weinyddiaethau Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, y mae gan bob un ohonynt eu gweithrediaeth a'u deddfwrfa eu hunain. Mae lefel y datganoli yn amrywio o un wlad i'r nesaf, a chyflwynir y meysydd polisi datganoledig a neilltuedig yn Atodiad 3 o adroddiad y Parti Gwladol.[2] Er bod rhai materion hawliau plant pwysig – yn fwyaf nodedig tlodi plant a mewnfudo – yn gyffredin ar draws y Deyrnas Unedig, mae dull y llywodraeth o weithredu yn amrywio yn achos nifer o faterion hawliau plant ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig. Er enghraifft, mae statws ymgorffori CCUHP ei hun yn wahanol iawn. Am y rheswm hwnnw, rydym ni'n cynnwys gwybodaeth am y gwledydd penodol ac argymhellion ar eu cyfer yn yr adroddiad hwn, ochr yn ochr â chydnabod mai Parti Gwladol y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol, yn pen draw, am roi CCUHP ar waith ar draws ei holl diriogaeth. Rydym hefyd yn annog y Pwyllgor i glywed gan y llywodraethau datganoledig yn ystod archwiliad y Deyrnas Unedig, gan y gall fod yn anodd iddyn nhw fwydo i'r broses adrodd.

Asesiad cyffredinol o hanes blaenorol y Deyrnas Unedig

d. Mae'r Comisiynwyr Plant yn pryderu bod ymateb Parti Gwladol y DU i'r dirwasgiad economaidd byd-eang, gan gynnwys gosod mesurau caledi yn eu lle a newidiadau i'r system les, wedi arwain at fethu i amddiffyn y plant mwyaf difreintiedig a'r rhai sydd mewn grwpiau arbennig o agored i niwed rhag tlodi plant, fel nad oes modd gwireddu eu hawliau o dan Erthyglau 26 a 27 o CCUHP.

[1] Yn yr adroddiad hwn, fel yn y Confensiwn ei hun, mae 'plant' yn cyfeirio at bawb sydd o dan 18 oed.
[2] Gweler y tabl ar dudalen 64.

Nid oedd lles pennaf plant yn ganolog i ddatblygiad y polisïau hyn, ac ni cheisiwyd barn plant. Mae lleihau incwm aelwydydd plant tlotach o ganlyniad i newidiadau i'r dreth, trosglwyddiadau a budd-daliadau nawdd cymdeithasol wedi arwain at dlodi bwyd a thanwydd, a chynnydd sydyn yn y defnydd o ddarpariaeth banciau bwyd gan deuluoedd mewn argyfwng. Mewn rhai rhannau o'r Deyrnas Unedig nid oes digon o dai fforddiadwy mewn cyflwr gweddus, ac mae hynny wedi arwain at blant tlotach yn byw mewn tai annigonol a llety dros dro. Mae mesurau caledi wedi lleihau darpariaeth ystod o wasanaethau sy'n amddiffyn ac yn cyflawni hawliau plant, gan gynnwys gwasanaethau iechyd a gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc; addysg; y blynyddoedd cynnar; gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar; a gwasanaethau ieuenctid.

e. Mae'r Comisiynwyr hefyd yn pryderu'n fawr ynghylch effaith lleihau systematig ar gyngor, cymorth a chynrychiolaeth gyfreithiol i blant a'u rhieni/gofalwyr mewn meysydd pwysig megis cyfraith carcharau; mewnfudo; cyfraith breifat y teulu; ac addysg. Mae hyn yn golygu nad yw plant yn cael mynediad at ffyrdd o unioni'r sefyllfa pan dorrwyd ar draws eu hawliau.

f. Mae'r Comisiynwyr yn pryderu hefyd ynghylch dyfodol y setliad hawliau dynol yn y Deyrnas Unedig yn sgîl bwriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998 (HRA), sy'n gwneud y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) yn rhan o gyfraith gwlad, a'i disodli â Bil Hawliau Prydeinig nad yw ei gynnwys wedi'i gyhoeddi eto, gan dorri'r cysylltiad ffurfiol rhwng llysoedd Prydain a Llys Hawliau Dynol Ewrop.[3] Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol wedi chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o hyrwyddo ac amddiffyn hawliau plant yn y Deyrnas Unedig, ac mae Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi cyflawni rôl bwysig wrth ddatblygu'r amddiffyniad a gynigir i blant gan y llys hwnnw. Mae'r Comisiynwyr yn pryderu bod unrhyw newid i'r Ddeddf Hawliau Dynol neu gam i'w disodli yn debygol o fod yn gam yn ôl.

g. Mae'r Comisiynwyr yn credu y dylai'r Parti Gwladol a'r gweinyddiaethau datganoledig fuddsoddi'r lefel ofynnol o gyllid mewn gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc er mwyn diwallu anghenion plant y mae angen cefnogaeth o'r fath arnynt, gan roi sylw arbennig i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf, megis plant anabl, plant a amddifadwyd o ofal rhieni, plant yr effeithiwyd arnynt gan wrthdaro, trawma, camdriniaeth ac esgeulustod, y rhai sy'n byw mewn tlodi a'r rhai sydd mewn gwrthdrawiad â'r gyfraith. Dylai'r Parti Gwladol fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliaeth ac ymyrraeth gynnar cyffredinol i blant, er mwyn atal cynnydd mewn salwch meddwl ymhlith plant.

2. Mesurau gweithredu cyffredinol (erthyglau 4, 42, 44(6))

Statws ymgorffori'r Confensiwn

[3] Maniffesto'r Blaid Geidwadol 2015, t60.

a. Bellach mae CCUHP wedi'i gadarnhau gan y Deyrnas Unedig yn ddi-amod. Mae gan y Deyrnas Unedig ddau ddatganiad, un sy'n dehongli bod y Confensiwn yn berthnasol dim ond wedi genedigaeth fyw, a'r llall yn dehongli cyfeiriadau'r Confensiwn at 'rieni' fel rhai sy'n berthnasol dim ond i'r rheiny sy'n cael eu hystyried yn rhieni o dan y gyfraith genedlaethol. Mae'r Deyrnas Unedig wedi cadarnhau'r Protocol Cyntaf Dewisol a'r Ail Brotocol Dewisol i CCUHP, ond nid yw wedi llofnodi'r Protocol Dewisol ar Weithdrefn Gyfathrebu.

Argymhellion:

Dylai'r DU lofnodi a chadarnhau'r Trydydd Protocol Dewisol i'r CCUHP ar Weithdrefn Gyfathrebu.

Dylid rhoi mecanwaith ffurfiol yn ei le yn y Deyrnas Unedig i sicrhau bod yr holl genhedloedd datganoledig yn cael eu cynnwys fel mater o drefn ac mewn modd cynhwysfawr yn y systemau rhyngwladol ar gyfer adrodd am hawliau dynol, gan gynnwys cyfranogiad gweithredol yn nirprwyaethau'r Deyrnas Unedig i gyrff hawliau dynol rhyngwladol.

b. Nid yw CCUHP wedi'i ymgorffori i gyfraith gwlad yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, yng Nghymru a'r Alban gwnaed peth cynnydd tuag at ymgorffori ers 2008. Mae Deddf Plant a Phobl Ifanc (yr Alban) 2014 yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion ac awdurdodau cyhoeddus i roi ystyriaeth barhaus i gamau i hyrwyddo hawliau plant ac, os byddant yn barnu bod hynny'n briodol, i gymryd unrhyw gamau a nodwyd.[4] Mae Gweinidogion yr Alban hefyd o dan ddyletswydd i hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau plant (gan gynnwys ymwybyddiaeth a dealltwriaeth priodol ymhlith plant)[5]. Rhaid iddynt adrodd ymhellach ar y cynnydd a wnaed yng nghyswllt y dyletswyddau hynny bob tair blynedd, sy'n cynnwys eu cynlluniau ar gyfer y cyfnod nesaf o dair blynedd[6].

c. Fodd bynnag, nid oedd Llywodraeth yr Alban yn cefnogi cynigion i ymgorffori'r Confensiwn yn llwyr i gyfraith yr Alban, na chwaith i symud ymlaen gydag amddiffyniad cyfreithiol y gellid ei orfodi i hawliau plant. Mae eu cynlluniau gweithredu ar CCUHP: *Do the Right Thing* (2009) a'r adroddiad diweddaru (2012) i'w croesawu mewn egwyddor, ond nid ydynt yn cynnwys digon o ymrwymiadau diriaethol, mesuradwy, a mesurau cynnydd.

d. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i CCUHP wrth ymarfer eu swyddogaethau. Mae'r Mesur yn galw am Gynllun Hawliau Plant sy'n nodi'r trefniadau a fydd yn **sicrhau bod**

[4] Deddf Plant a Phobl Ifanc (yr Alban) 2014, a. 1 (1).
[5] Deddf Plant a Phobl Ifanc (yr Alban) 2014, a. 1 (3).
[6] Deddf Plant a Phobl Ifanc (yr Alban) 2014, a. 1 (4).

y Llywodraeth yn cydymffurfio â'u dyletswydd. Fodd bynnag, nid yw'r Cynllun yn cynnwys amserlen, nodau mesuradwy na mecanwaith gweithredu a monitro.[7] Mae Asesu'r Effaith ar Hawliau Plant yn hanfodol i wireddu sylw dyledus; er bod nifer o Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant wedi'u cwblhau gan Lywodraeth Cymru, mae eu hansawdd a'u tryloywder wedi bod yn anghyson.

e. Er bod y rhain yn ddatblygiadau cadarnhaol, maent yn dal i wneud tipyn yn llai nag ymgorffori'r Confensiwn, ac nid ydynt wedi cael eu hefelychu yn Lloegr na Gogledd Iwerddon. Yng Ngogledd Iwerddon ni wnaed fawr ddim cynnydd yng nghyswllt ymgorffori CCUHP ers 2008. Nid oes llawer o bolisïau na darnau o ddeddfwriaeth yn cyfeirio at CCUHP, a dim ond nifer cyfyngedig iawn o Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant sydd wedi'u cynnal. Fodd bynnag, mae datblygu Strategaeth Plant newydd o 2016, ochr yn ochr â dangosyddion hawliau plant, yn gyfle i ystyried ymgorffori CCUHP a rhoi'r mesurau cyffredinol ar waith. Yn Lloegr ni fu symudiad deddfwriaethol tuag at ymgorffori'r Confensiwn, dim ond ymrwymiad Gweinidogol o dan lywodraeth 2010-2015 i roi sylw dyledus i Erthyglau CCUHP wrth lunio polisi a deddfwriaeth newydd.[8]

f. Amlygodd penderfyniad diweddar Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig yn *SG v Secretary of State for Work and Pensions* [2015] UKSC 16 fod angen ymgorffori'r Confensiwn i'r ddeddfwriaeth. Er i'r Llys ddyfarnu bod gosod 'cap' ar swm y budd-dal sy'n daladwy i deuluoedd heb roi sylw i les pennaf plant yn groes i Erthygl 3 o CCUHP, nid oedd hynny'n peri ei fod yn anghyfreithlon o dan gyfraith gwlad: nid oedd modd felly cael hyd i unioniad cyfreithiol i'r canfyddiad hwn gan lys uchaf y Deyrnas Unedig fod CCUHP wedi'i dorri. Bu'n rhaid dadlau'r achos ar sail camwahaniaethu yn erbyn benywod, gan nad oedd amddiffyniad penodol i hawliau plant yn y cyd-destun hwn yng nghyfraith y Deyrnas Unedig.

g. Mae'r Comisiynwyr Plant yn pryderu ynghylch y diffyg ymrwymiad gwleidyddol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i roi gwarantau domestig yng nghyd-destun hawliau dynol. Etholwyd llywodraeth gyfredol y Deyrnas Unedig gydag ymrwymiad maniffesto i ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998 (HRA) sy'n ymgorffori Confensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol i gyfraith y Deyrnas Unedig, a'i disodli â Bil Hawliau Prydeinig a fyddai, yn ein barn ni, yn debygol iawn o wanhau yn sylweddol yr amddiffyniad y mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ei rhoi i hawliau plant yn y Deyrnas Unedig.[9] Yng Ngogledd Iwerddon mae proses y Bil Hawliau, sy'n elfen allweddol o gytundeb heddwch 1998, wedi methu â gwneud cynnydd pellach, ac nid oes eglurder ynghylch sut rhoddir yr ymrwymiad hwn ar waith yn y dyfodol.

h. Mae rolau CCE a SCCYP wedi cael eu cryfhau ers 2008: mae cylch gorchwyl CCE bellach yn troi o amgylch hyrwyddo ac amddiffyn hawliau plant, gan roi sylw arbennig i CCUHP.[10] Rhoddwyd pwerau ychwanegol i SCCYP gan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (yr Alban) 2014, sy'n cyflwyno mecanwaith ymchwiliadau unigol, y gall plant ei defnyddio i geisio ymchwiliad i achosion honedig o dorri eu hawliau. Cyfyngir ar allu'r Comisiynwyr i gyflawni eu cylchoedd gorchwyl, fodd bynnag, gan eu trefniadau sefydliadol. Noddir CCE, ComPlantCymru ac NICCY gan adrannau'r llywodraeth, yn

[7] Croke, R (eds) *Rights here, right now: what is the reality of children's rights in Wales?* Achub y Plant, 2013.
[8] Yr Adran Addysg, Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig, *Publication of the independent review of the Children's Commissioner,* CM-7981-WMS.
[9] **https://www.conservatives.com/manifesto**
[10] Adran 2 o Ddeddf Plant 2004, fel y'i newidiwyd gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014.

hytrach na bod yn uniongyrchol atebol i'w cyrff deddfu. Mewn cyferbyniad, mae SCCYP yn cael ei ariannu gan Senedd yr Alban ac yn atebol iddi.

i. Yng Ngogledd Iwerddon cynhaliwyd dau adolygiad o ddeddfwriaeth y Comisiynydd (2006 a 2013), a'r ddau dro argymhellwyd, er mwyn cydymffurfio ag Egwyddorion Paris, y dylai NICCY fod yn annibynnol ar y llywodraeth ac adrodd i Gynulliad Gogledd Iwerddon yn hytrach nag un o adrannau'r llywodraeth. Ymhellach, nododd yr adroddiadau hyn gyfyngiadau hollbwysig yn neddfwriaeth NICCY sy'n effeithio ar allu'r Comisiynydd i ymarfer ei phwerau cyfreithiol yn llawn. Nid yw Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi rhoi dim o'r argymhellion na'r newidiadau gofynnol hyn ar waith. Ar ben hynny, torrwyd cyllideb NICCY 23% rhwng 2007/8 a 2013/14, a chyhoeddwyd toriadau pellach ar gyfer 15/16 ymlaen. Comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o'r fframweithiau deddfwriaethol a llywodraethiant cyfredol sy'n cynnal ComPlantCymru, a adroddodd ei ganfyddiadau ym mis Rhagfyr 2014[11]. Mae ComPlantCymru yn cytuno â'r argymhelliad a wnaed i gadarnhau a diweddaru'r ddeddfwriaeth bresennol, er mwyn galluogi'r Comisiynydd i weithredu ar bob mater sy'n ymwneud â phlant yng Nghymru neu sy'n effeithio arnynt.

Argymhellion

Dylai'r Parti Gwladol a'r llywodraethau datganoledig ymgorffori'r Confensiwn a'i Brotocolau yn llawn ac yn benodol yn eu deddfwriaeth.

Ni ddylai'r amddiffyniad i hawliau plant yng nghyfraith y Deyrnas Unedig gael ei wanhau. Dylai unrhyw Fil Hawliau newydd adeiladu ar amddiffyniad hawliau sylfaenol pob plentyn yn yr awdurdodaeth, yn hytrach na'u lleihau, a hynny heb gamwahaniaethu, yn ogystal â darparu rhwymedïau barnwrol effeithiol, gan gynnwys trwy Lys Hawliau Dynol Ewrop, a dylid datblygu hyn drwy broses ymgynghorol, ddemocrataidd, sy'n parchu hawliau plant o dan Erthygl 12.

Dylai'r ddeddfwriaeth ei gwneud hi'n ofynnol i'r Deyrnas Unedig a'r Llywodraethau datganoledig gynnal asesiad effaith cynhwysfawr ar hawliau plant, a hynny fel mater o drefn, yn achos pob polisi a deddfwriaeth arfaethedig, a hefyd ddadansoddiad rheolaidd o effaith polisïau a deddfwriaeth sydd eisoes ar waith ar hawliau plant.

Yn unol ag Egwyddorion Paris, dylai'r Comisiynwyr Plant gael mandad gan eu cyrff deddfu yn hytrach na'u llywodraethau, a derbyn yr adnoddau dynol ac ariannol angenrheidiol i fedru cyflawni eu mandad mewn modd effeithiol a chydlynus, fel bod hawliau pob plentyn ym mhob rhan o'r parti Gwladol yn cael eu diogelu.

Dylai Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon roi sylw i adroddiadau 2006 a 2013 ar Gomisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon, ac addasu'r ddeddfwriaeth yn unol â hynny.

[11] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/141210-childrens-commissioner-reportv3-en.pdf

Dyrannu adnoddau

j. Yn Sylwadau Terfynol 2008 dywedodd y Pwyllgor ei bod hi'n anodd canfod faint o wariant sy'n cael ei ddyrannu i blant ar draws y parti Gwladol oherwydd diffyg dadansoddi cyllidebol cyson. Mae hwn yn dal yn fwlch pwysig, gan nad yw llywodraethau'r Deyrnas Unedig yn adrodd ar faint maen nhw'n ei wario ar wasanaethau i blant.[12]

k. Ers 2008, mae'r llywodraethau datganoledig wedi gweld gostyngiad cyffredinol sylweddol yn y cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ac mae hyn yn ei dro yn cael effaith sylweddol ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau. Mae dull Llywodraeth Cymru o gynnwys pob oed yn achos llawer o bolisïau wedi lleihau yn sylweddol weledded cyllidebau plant.

l. Bu gostyngiad sylweddol hefyd yn y cyllid i awdurdodau statudol ar draws y Deyrnas Unedig. Ofnir y bydd llai o fynediad at wasanaethau cyffredinol lleol i blant yn rhoi mwy o bwysau ar y gwasanaethau i'r rhai sydd â'r angen mwyaf; mae'r Comisiynwyr yn pryderu'n fawr bod gwasanaethau statudol, yn sgîl toriadau i'r gyllideb, yn canolbwyntio ar gyflawni eu dyletswyddau statudol yn unig. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod cyllid yn cael ei dynnu'n ôl o lawer o wasanaethau ataliaeth ac ymyrraeth gynnar hanfodol sy'n chwarae rôl bwysig ym mywydau plant agored i niwed.

Argymhellion

Dylai llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig gynnal dadansoddiadau ar sail hawliau plant fel mater o drefn ar benderfyniadau, prosesau a chanlyniadau cyllidebol ac economaidd. Dylid sicrhau bod gwybodaeth am gyllid cyhoeddus yn hygyrch ac yn ddealladwy, fel bod modd craffu ac ymgysylltu'n ehangach â chymdeithas sifil, gan gynnwys plant.

Fel mater o flaenoriaeth, dylai Parti Gwladol y Deyrnas Unedig fwyafu'r adnoddau sydd ar gael i amddiffyn plant, yn enwedig y rhai sydd â'r angen mwyaf, rhag effeithiau'r dirwasgiad economaidd a mesurau caledi. Dylai'r Parti Gwladol a'r llywodraethau datganoledig sicrhau bod trefniadau yn eu lle i nodi'n glir sut mae adnoddau'n cael eu dyrannu er mwyn sicrhau cynnydd ym maes hawliau plant a dileu tlodi plant.

Rhaid i bob gwariant cyhoeddus cenedlaethol ac is-genedlaethol a phenderfyniadau eraill ynghylch adnoddau gael eu gwneud mewn modd sy'n blaenoriaethu anghenion, hawliau a lles pennaf plant, gyda phwyslais arbennig ar blant sy'n profi tlodi neu eithrio cymdeithasol neu lle mae risg o hynny. [13]

---

[12] Fodd bynnag, mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi cydweithredu ar ffurf prosiect 'mapio cronfeydd', a gomisiynwyd gan NICCY ac Atlantic Philanthropies, sydd i gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2015.
[13] Yn unol â Datganiad Sefyllfa Rhwydwaith Ombwdsmyn Plant Ewrop, 'Children and Austerity', a fabwysiadwyd yn 18fed Cynulliad Cyffredinol y Rhwydwaith, Caeredin, 24 Hydref 2014.

Cymorth cyfreithiol a mynediad at gyfiawnder

m. Yng Nghymru a Lloegr mae cymorth cyfreithiol ar gyfer cyfraith sifil a charcharau wedi wynebu toriadau llym ers Ebrill 2013 yn sgîl Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 a mesurau dilynol sy'n golygu nad yw plant a'u rhieni bellach yn gallu derbyn cyngor a chymorth am ddim, na chynrychiolaeth mewn achosion priodol, mewn nifer o feysydd cyfreithiol. Ymhlith y meysydd cyfreithiol yr effeithiwyd arnynt mae mewnfudo, addysg (ac eithrio achosion anghenion addysgol arbennig), cyfraith carcharau, budd-daliadau lles a dyled, ac yn achos rhieni, cyfraith teulu breifat. Mae hyn yn digwydd ar adeg pan yw'r sector cyngor hefyd wedi colli arian o ganlyniad i fesurau caledi. Mae ymchwil i CCE wedi amlygu effaith newidiadau i gymorth cyfreithiol ers Ebrill 2013 ar hawliau plant a phobl ifanc.[14] Canfu CCE fod ystod eang o hawliau'r Confensiwn yn debygol o fod wedi dioddef effaith negyddol yn sgîl y newidiadau hyn, gan gynnwys y rhai a ddiogelir gan Erthyglau 2, 3 a 12 o CCUHP, yn ogystal â hawliau gwaelodol yr ymgysylltir â hwy gan y broblem gyfreithiol dan sylw. Daeth CCE i'r casgliad bod angen diwygio ar frys er mwyn sicrhau bod y system cymorth cyfreithiol yn gallu amddiffyn hawliau plant o dan y Confensiwn yn ddigonol.[15]

n. Yng Ngogledd Iwerddon hefyd mae'r Weithrediaeth yn bwriadu cyfyngu ar gymorth cyfreithiol neu ei ddileu o anghydfodau cyfraith teulu preifat, a fydd yn cyfyngu ar fynediad rhieni i'r Llysoedd neu'n amharu arno yng nghyswllt materion cyfraith teulu preifat. Mae hyn yn groes i Sylw Terfynol 2008, lle bu'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Parti Gwladol ddwysáu ei ymdrechion i roi cymorth priodol i rieni a gwarcheidwaid cyfreithiol wrth gyflawni eu cyfrifoldebau magu plant, a hwyluso cychwyn achosion cyswllt ar gyfer pob plentyn a wahanwyd oddi wrth eu rhieni a'u brodyr a'u chwiorydd.

o. Yn yr Alban, newidiwyd y dull o asesu plentyn ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil ac i blant ym mis Ionawr 2011.[16] Yn awr mae'n rhaid i gyfreithiwr sy'n asesu plentyn neu berson ifanc sy'n gwneud cais am unrhyw gymorth cyfreithiol sifil neu i blant roi sylw i amgylchiadau ariannol unrhyw un sydd â rhwymedigaeth o ran cynhaliaeth[17] i'r plentyn neu'r person ifanc dan sylw. Mae hynny'n effeithio ar eu mynediad at gyngor cyfreithiol annibynnol.

---

[14] CCE (2014) Legal Aid Changes since April 2013: Child Rights Impact Assessment.
[15] Ibid, tt9-10.
[16] Rheoliadau Newid Cyngor a Chymorth (yr Alban) 2010 a Rheoliadau Newid Cymorth Cyfreithiol Sifil (yr Alban) 2010
[17] Rhwymedigaeth o ran 'cynhaliaeth' yw'r ddyletswydd sy'n ddyledus i'r plentyn gan eu rhieni a chan y rhai sydd wedi derbyn y plentyn yn blentyn i'r teulu, i gynnal y plentyn yn ymarferol neu ar ffurf cymorth ariannol hyd at 18 oed (a 25, o dan rai amgylchiadau), ni waeth a oes gan y rhiant gyfrifoldebau rhiant a hawliau rhiant. Wrth wneud cais am gymorth cyfreithiol, rhaid ystyried incwm ac adnoddau eraill pob person sydd â rhwymedigaeth o ran cynhaliaeth i'r plentyn wrth gyfrifo modd y plentyn, ac eithrio lle byddai gwneud hynny'n annheg neu'n anghyfiawn.

Argymhelliad

Dylai plant a theuluoedd sydd heb fodd digonol fedru sicrhau cyngor cyfreithiol, cymorth a lle bo ymgyfreitha'n cael ei ystyried, cynrychiolaeth gyfreithiol ddi-dâl mewn unrhyw achos sy'n ymwneud â lles pennaf plentyn.

3. Diffiniad o'r plentyn (erthygl 1)

a. Mae Cydbwyllgor Hawliau Dynol Senedd y Deyrnas Unedig wedi amlygu'n ddiweddar eu bod wedi dod ar draws cyfres o faterion mewn amrywiaeth o gyd-destunau sy'n codi cwestiwn ehangach diffyg diffiniad cyfreithiol cyson ar gyfer oedran plentyn yn y Deyrnas Unedig. [18] Er enghraifft, methodd Deddf Troseddau Difrifol 2015 â chynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed yn y diffiniad o blant at ddibenion trosedd creulondeb i blant. Yn yr Alban, ni all rhai pobl ifanc 16 ac 17 oed fynd i'r system gwrandawiadau plant (oni bai eu bod eisoes ar oruchwyliaeth statudol), ac mae achosion troseddol yn eu herbyn yn cael eu clywed mewn llysoedd oedolion.

Argymhelliad

Dylai deddfwriaeth gael ei halinio ar draws Parti Gwladol y Deyrnas Unedig, er mwyn cynnwys pob plentyn o dan 18 oed yn y diffiniad cyfreithiol o blentyn, gan gydnabod yn briodol eu capasiti esblygol.

4. Egwyddorion cyffredinol (erthyglau 2, 3, 6 a 12)

Peidio â chamwahaniaethu

a. Nid yw plant yn cael eu hamddiffyn yn llawn o dan gyfraith y Deyrnas Unedig rhag camwahaniaethu yng nghyd-destun mwynhau eu hawliau, boed hynny yn sgîl eu statws fel plant neu yn sgîl eu haelodaeth hwy neu eu rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol o grŵp neu statws penodol. Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban mae Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n rhoi amddiffyniad deddfwriaethol i grwpiau a amddiffynnir mewn amrywiaeth o gylchoedd bywyd, gan gynnwys cyflogaeth, nwyddau, cyfleusterau a darparu gwasanaethau, yn eithrio plant o fwyafrif ei darpariaethau camwahaniaethu ar sail oedran. Yng Ngogledd Iwerddon cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015 na fyddai deddfwriaeth arfaethedig camwahaniaethu ar sail oedran oedd i gynnwys nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau yn berthnasol ond i bobl 16 oed a throsodd.
b. Mae'r methiant i amddiffyn plant rhag camwahaniaethu ar sail oedran yn groes i'r dymuniadau a fynegwyd gan blant mewn ymgysylltiad ag NICCY a **chyrff sectorol eraill yng Ngogledd Iwerddon. Yn yr un modd, roedd dros hanner**

[18] Y Cydbwyllgor ar Hawliau Dynol, *The UK's Compliance with the UNCRC*, Wythfed adroddiad 2014-15, paragraff 132.

(52%) y rhai 11 -16 oed a ymatebodd i arolwg diweddar yn yr Alban yn credu eu bod yn cael eu trin yn annheg oherwydd eu hoed, gan ddangos yr angen am yr amddiffyniad hwn.[19]

c. Mae cyrff cyhoeddus ar draws y Deyrnas Unedig yn cynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb (EIAs) yng nghyswllt polisïau neu ddeddfwriaeth newydd neu ddiwygiedig, er mwyn penderfynu a fyddant yn cael effaith niweidiol ar ystod o gategorïau cydraddoldeb, gan gynnwys 'oedran'.[20] Fodd bynnag, yn ymarferol, mae'r asesiadau hyn o effaith ar gydraddoldeb yn aml yn wael iawn o ran eu hasesiad o'r effaith ar blant, yn aml oherwydd diffyg data wedi'i ddadelfennu, neu oherwydd y bydd yr effaith yn anuniongyrchol – er ei bod yn sylweddol.

d. Mae plant hŷn hefyd yn dioddef effaith sylweddol ar draws y Deyrnas Unedig yn sgîl stereoteipio negyddol. Roedd hon yn un o bedair blaenoriaeth hanfodol y cytunodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig y byddent yn gweithio arnynt gyda'i gilydd, mewn ymateb i Sylwadau Terfynol 2008; mae plant wedi codi hyn droeon gyda'r Comisiynwyr Plant. Mae arolwg o bobl ifanc 16 oed yng Ngogledd Iwerddon, a gomisiynwyd yn 2010 gan NICCY, yn dangos hyd a lled y mater hwn. Roedd bron naw o bob deg (85%) yn credu bod pobl ifanc yn cael eu gweld mewn goleuni negyddol oherwydd eu hoed, ac roedd cyfran debyg (87%) wedi dioddef diffyg parch oherwydd eu bod yn bobl ifanc. Teimlai wyth o bob deg (79%) fod portread y cyfryngau o bobl ifanc yn negyddol yn bennaf.[21] Er gwaethaf hyn, ym marn y Comisiynwyr mae'r argymhelliad hwn wedi cael ei anwybyddu i raddau helaeth.

Argymhellion

Dylai'r Parti Gwladol a'r llywodraethau datganoledig ddarparu amddiddyniad deddfwriaethol cyfartal i blant yn erbyn camwahaniaethu ar sail oedran, a dileu pob eithriad sy'n cyfeirio at blant o dan eu deddfwriaeth gydraddoldeb, oni bai bod modd eu cyfiawnhau yn wrthrychol.

Dylai cyrff cyhoeddus sy'n cynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb gynnwys ac asesu plant yn benodol wrth ystyried cydraddoldeb 'oedran'.

Dylai'r Parti Gwladol a'r llywodraethau datganoledig gymryd camau digonol i ymdrin â stereoteipio negyddol plant hŷn.

---

[19] SCCYP (2014), heb ei gyhoeddi.

[20] Nid yw EIAs yn gyfreithiol ofynnol bellach yn Lloegr **http://www.eversheds.com/global/en/what/articles/index.page?ArticleID=en/Discrimination_and_equal_pay/** DLR_Equality_Impact_Assessments_Feb13.

[21] NICCY (2010), Young people's thoughts about, and experiences of, age-related negative stereotyping: an analysis of questions from the Young Life and Times Survey 2010 (NICCY: Belfast).

Lles pennaf y plentyn

e. Yn 2008 argymhelliad y Pwyllgor oedd bod Parti Gwladol y Deyrnas Unedig yn sicrhau bod egwyddor lles pennaf y plentyn yn cael ei hintegreiddio'n ddigonol i bob deddfwriaeth a pholisi sy'n cael effaith ar blant. Bu'r cynnydd o ran yr argymhelliad hwn yn fylchog. Mae enghreifftiau o rwymedigaethau statudol sy'n adleisio gofynion Erthygl 3: er enghraifft, mae Deddf Ffiniau, Dinasyddiaeth a Mewnfudo 2009 yn gofyn bod swyddogaethau mewnfudo Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cael eu cyflawni gan roi sylw i'r angen am ddiogelu a hybu lles plant sydd yn y Deyrnas Unedig. Yng Ngogledd Iwerddon, mae Erthygl 84 o Fil Cyfiawnder 2015 yn gofyn bod lles pennaf plant yn brif ystyriaeth wrth ymarfer swyddogaethau awdurdodau.

f. Fodd bynnag, nid yw llywodraeth y Deyrnas Unedig bob amser wedi bod yn ymroddedig i sicrhau bod Erthygl 3 yn cael ei rhoi ar waith wrth wneud penderfyniadau. Er enghraifft, cafodd lles pennaf y plentyn mewn penderfyniadau mewnfudo ei ystyried gan Oruchaf Lys y Deyrnas Unedig yn 2011 yn *ZH (Tanzania) v Secretary of State for the Home Department*.[22] Cadarnhaodd y Llys yr egwyddor fod 'ysbryd', os nad llythyren Erthygl 3 o CCUHP wedi cael ei ymgorffori mewn penderfyniadau ynghylch plant oedd yn destun rheolaeth fewnfudo, neu yr oedd hynny'n effeithio arnynt, trwy adran 55 o Ddeddf Ffiniau, Dinasyddiaeth a Mewnfudo 2009. Mewn ymateb i'r datblygiad yng nghyfraith achosion a gynrychiolwyd gan *ZH (Tanzania)*, cyflwynodd y Swyddfa Gartref Reolau Mewnfudo newydd ar 9 Gorffennaf 2012 oedd yn ceisio codeiddio lles pennaf y plentyn mewn penderfyniadau mewnfudo trwy gyfeirio'n benodol at hyd preswyliaeth plentyn.[23]

g. Yn yr Alban, mae Deddf Gwrandawiadau Plant (yr Alban) 2011 yn gofyn bod gwrandawiadau plant, paneli rhag-wrandawiad, a'r llysoedd mewn achosion sy'n ymwneud â gwrandawiadau plant yn trin lles y plentyn fel ystyriaeth hollbwysig.[24] Rhaid i bob gwrandawiad plant ystyried penodi diogelydd, h.y. person annibynnol i ddiogelu buddiannau'r plentyn y mae'r gwrandawiad plant yn ymwneud ag ef/â hi. Mae SCCYP yn dal i eiriol dros estyn egwyddor lles pennaf i bob rhan o feysydd y gyfraith, polisi ac ymarfer sy'n effeithio ar blant. Yn 2013, cynigiodd SCCYP newidiadau i Fil Plant a Phobl Ifanc (yr Alban) a fyddai wedi ymgorffori erthyglau 3 a 12 o CCUHP, gan ofyn bod lles pennaf plant yn cael ei drin fel prif ystyriaeth ar draws holl benderfyniadau'r llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus eraill (ac eithrio lle bo safon uwch, h.y. egwyddor prif ystyriaeth yn berthnasol). Ni chefnogwyd hyn gan Lywodraeth yr Alban, a gwrthododd Senedd yr Alban y newidiadau.

---

[22] 'https://www.supremecourt.uk/decided-cases/docs/UKSC_2010_0002_Judgment.pdf

[23] https://www.gov.uk/government/collections/family-and-private-life-rule-changes-9-july-2012; gweler y llythyr gan y Comisiynwyr Plant yn mynegi pryder ynghych y newid hwn i'r Rheolau **http://www.childrenscommissioner.gov.uk/content/publications/content_925**

[24] Mae hyn yn adlewyrchu darpariaethau hirsefydledig Deddf Plant (yr Alban) 1995 sy'n berthnasol i benderfyniadau'r llysoedd, gan gynnwys materion megis cyfrifoldebau a hawliau rhieni, a phenderfyniadau awdurdodau lleol yng nghyswllt plant sy'n derbyn gofal. Mae Deddf Mabwysiadu a Phlant (yr Alban) 2007 yn defnyddio'r un egwyddor.

h. Serch hynny, mae cyfleoedd i wneud cynnydd sectorol. Er enghraifft, mae cynnwys dyletswydd i gwnstabliaid yr heddlu ystyried lles pennaf y plentyn **cyn** penderfynu ei (h)arestio, ei c(h)adw yn y ddalfa, ei g/chyfweld neu ei g/chyhuddo yn a.42 o Fil Cyfiawnder Troseddol (yr Alban) i'w groesawu, a dylid ei basio a'i efelychu mewn meysydd polisi ac arfer gwasanaethau cyhoeddus eraill.

i. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi integreiddio darpariaeth gofal cymdeithasol i blant ac oedolion mewn un Ddeddf. Yn dilyn craffu sylweddol ar hyd taith y Ddeddf, mae rhoi sylw dyledus i CCUHP wedi dod yn ddyletswydd drosfwaol i bawb sy'n ymarfer swyddogaethau oddi tani, ac ymgorfforwyd cydnabod anghenion unigryw plant i'r meini prawf cymhwyster[25], gan sicrhau mwy o gymhelliant i les pennaf y plentyn fod yn brif ystyriaeth wrth asesu a darparu gofal a chefnogaeth.

Argymhellion

Rhaid i'r Parti Gwladol sicrhau bod lles pennaf y plentyn yn brif ystyriaeth ym mhob deddfwriaeth a phenderfyniadau gweinyddol a barnwrol sy'n ymwneud â'r plentyn, ac eithrio lle bo safon uwch eisoes ar waith. Dylid penderfynu ar les pennaf trwy gynnal asesiad unigol o'r plentyn a'i (h)anghenion a'i (h)amgylchiadau, gan roi pwys dyledus ar farn y plentyn.

Dylai fod gan bob plentyn sydd heb ofal rhiant/gwarcheidwad (gan gynnwys plant y mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb rhiant drostynt) gynrychiolydd annibynnol penodol ag awdurdod statudol sy'n mynd ati'n rhagweithiol i amddiffyn eu lles pennaf.

Goroesi a datblygiad

j. Ym mis Ionawr 2013 disodlwyd proses yr Adolygiad Achosion Difrifol yng Nghymru gan fframwaith newydd Adolygu Ymarfer Plant. Lluniwyd y broses newydd hon i hybu dysgu a gwella ymarfer yn dilyn marwolaethau plant a digwyddiadau difrifol[26].

k. Sefydlwyd Bwrdd Diogelu Gogledd Iwerddon (SBNI) yn 2012 yn unol â Deddf y Bwrdd Diogelu (2011). O dan erthygl 3(5) o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i SBNI sefydlu prosesau i adolygu marwolaethau plant yng Ngogledd Iwerddon. Er bod gan holl rannau eraill y Deyrnas Unedig fecanweithiau tebyg yn eu lle, mae'r swyddogaeth hon yn dal heb ddod yn ddeddf 4 blynedd wedi i'r ddeddfwriaeth gael ei phasio. Mae NICCY yn dal i godi pryderon ynghylch effaith yr oedi hwn ar sicrhau bod y gwersi priodol yn cael eu dysgu o farwolaethau plant er mwyn mynd ati'n effeithiol i leihau marwolaethau plant y gellid eu hatal.

[25] http://gov.wales/newsroom/healthandsocialcare/2015/150511care/?lang=en
[26] http://gov.wales/docs/dhss/publications/121221guidanceen.pdf

Argymhelliad

Dylai Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon sicrhau bod prosesau i adolygu marwolaethau plant yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu rhoi ar waith gyda hyn.

Yr hawl i gael eu clywed

l. Mae gwireddu hawliau plant o dan Erthygl 12 o CCUHP yng nghyfraith ac ymarfer y Deyrnas Unedig yn amrywio'n fawr. Mae rhwymedigaethau statudol penodol i awdurdodau lleol yn Lloegr roi sylw i farn plant wrth gyflawni eu dyletswyddau, er enghraifft yn Neddf Gofal Plant 2006 mewn perthynas â gwasanaethau plentyndod cynnar, ac yng nghyswllt gwasanaethau anghenion addysgol arbennig yn Neddf Plant a Theuluoedd 2014. Mae canllawiau statudol a roddwyd i awdurdodau lleol yn 2012, i roi sylw dyledus i'r Confensiwn, hefyd yn sbardun i gyflawni Erthygl 12.

m. Mae adroddiad y Parti Gwladol (tt14-15) yn canolbwyntio yn yr adran hon ar gyfranogiad 'ieuenctid', ac nid yw'n delio â hawliau Erthygl 12 plant iau na grwpiau a allai gael eu clywed yn llai neu fod yn arbennig o agored i niwed, gan gynnwys plant ag anableddau.[27] Er bod gweithgaredd yn y meysydd hyn gan Gomisiynwyr Plant a chyrff anllywodraethol[28], mae angen i lywodraethau cenedlaethol a lleol wneud mwy i ymgysylltu â'r grwpiau hyn o blant a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau. Dylai gwaith cyfranogiad pellach wneud gwahaniaeth i'r canlyniadau i blant[29] a dylen nhw gael lleisio barn ar benderfyniadau ynghylch eu bywydau eu hunain, yn hytrach nag ar lefel polisi neu strategol yn unig.[30]

n. Er gwaethaf datblygiadau cychwynnol ym maes cyfranogiad plant ers 2008, mae'r cynnydd a'r seilwaith i gynnal hyn wedi cael ei leihau yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi dod â'i chefnogaeth i ben yn achos y Ddraig Ffynci, Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru, ac wedi methu ag ailsefydlu ei chefnogaeth i Uned Cyfranogiad Cymru a Chonsortiwm Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc Cymru ers iddo ddod i ben yn 2013. Mae hyn yn golygu bod Cymru heb fecanwaith ddemocrataidd, dan arweiniad cyfoedion, ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, yn 2014 dyrannwyd cyllid i gorff anllywodraethol arall i ddatblygu prosiect Cymru Ifanc, sy'n ceisio ehangu ymgysylltiad y llywodraeth â phlant a phobl ifanc ledled Cymru. Er gwaethaf ymdrechion monitro ac ymyrraeth ComPlantCymru, ni chafwyd eglurder na

---

[27] Adroddiad Terfynol CCE CSEGG a'r Adroddiad 'Recognition and Telling', a **http://www.childrenscommissioner.gov.uk/content/publications/content_910**

[28] Er enghraifft, grŵp 'Young Amplify' CCE, a gwaith tlodi plant CCE a oedd yn ymgysylltu â theuluoedd a phlant o dan 5 oed

[29] We would like to make a change:Children's and young people's participation in strategic health decision making- fersiwn i blant **http://www.childrenscommissioner.gov.uk/content/publications/content_719**

[30] **http://www.childrenscommissioner.gov.uk/content/publications/content_898R**
http://www.childrenscommissioner.gov.uk/content/publications/content_910

manylion eto ynghylch sut bydd y llywodraeth ddatganoledig yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan Erthygl 12. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi symud ymlaen â'i ymdrechion ei hun i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc wrth ei waith, ac mae cyfle'n bodoli i sefydlu fframwaith democrataidd er mwyn cynnwys plant a phobl ifanc yn ei swyddogaethau deddfwriaethol. Ar ben hynny, gwnaed peth cynnydd ym maes cyfranogiad ysgolion a llais y disgybl yng Nghymru, ond mae anghysondeb cenedlaethol o ran ansawdd ac effaith y ddarpariaeth yn parhau.

o. Yng Ngogledd Iwerddon mae absenoldeb polisi neu strategaeth trosfwaol wedi arwain at nifer o fentrau a fethodd neu lle bu oedi difrifol, a fyddai wedi gwella cyfranogiad plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau. Nododd ymchwil ddiweddar nad oes mecanwaith sefydledig ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a gwerthuso effaith yr ymgysylltu hwn.[31] Ers 2011, gwnaed ymdrechion i sefydlu Cynulliad Ieuenctid yng Ngogledd Iwerddon. Fodd bynnag, mae'r rhain wedi wynebu anawsterau ar sawl achlysur, ac ym mis Ionawr 2015, cadarnhawyd na fyddai Comisiwn y Cynulliad yn sefydlu Cynulliad Ieuenctid i Ogledd Iwerddon yn y dyfodol agos. Yn 2005, cyhoeddwyd cynlluniau i sefydlu 'Rhwydwaith Ieuenctid'. Diben y rhwydwaith oedd cryfhau llais uniongyrchol plant a phobl ifanc ym mhob agwedd berthnasol ar ddarpariaeth y llywodraeth. Er bod y cynllunio'n parhau, nid yw hyn wedi'i sefydlu eto.

p. Yn yr Alban, er bod y gyfraith a pholisi yn gofyn bod plant yn cael eu galluogi i fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch eu gofal, eu haddysg a phenderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, mae ymarfer anghyson ar draws yr Alban[32]. Canfu Elsley (2013), er bod cryn ymrwymiad i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, fod y sylfaen o dystiolaeth yn wael ar draws 8 'ardal glwstwr' CCUHP. Dau faes i'w nodi yw'r angen am wrando ar farn plant mewn teuluoedd sydd â hanes o gam-drin domestig,[33] a barn plant ag anableddau[34].

Argymhelliad

Dylai'r Parti Gwladol a'r llywodraethau datganoledig adnewyddu eu hymrwymiad i weithredu Erthygl 12 a sicrhau eu bod yn darparu'r adnoddau a'r mecanweithiau i alluogi pob plentyn, gan gynnwys plant iau a'r rhai y mae eu lleisiau'n llai tebygol o gael eu clywed, i gyfranogi mewn prosesau strategol ac unigol o wneud penderfyniadau ar lefel leol a chenedlaethol. Dylid dweud yn benodol wrth blant, a sicrhau eu bod yn gallu gweld sut mae eu barn a'u profiadau wedi dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir yn eu cylch.

---

[31] **'Walking or Talking Participation?'; Evidencing the impact of direct participation with children and young people in the development of departmental policies, strategies, legislation and Services**; Paula Keenan, 2014 (comisiynwyd gan Gomisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon)

[32] Elsley et al (2013), *Children and young people's experiences of, and isses relating to the implementation of the United Nations Convention on the Rights of the Child, Social Research*

[33] SCCYP(2013) *The treatment of the views of children in private law child contact disputes where there is a history of domestic abuse (Mackay K)*

[34] Adolygiad Cenedlaethol o'r Gwasanaethau i Bobl Ifanc Anabl, **http://dera.ioe.ac.uk/2190/1/0114135.pdf**

5. Hawliau a rhyddid sifil

a. Mae'r Comisiynwyr o'r farn y dylid galluogi pobl ifanc 16 ac 17 oed i bleidleisio mewn etholiadau. Dylid mabwysiadu argymhellion Adolygiad Annibynnol yr Athro Graham Donaldson o Gwricwlwm Cenedlaethol a Fframwaith Asesu Cymru[35] yng Nghymru er mwyn sicrhau bod system addysg Cymru yn galluogi pobl ifanc 16 ac 17 oed i fod yn hyderus wrth fwrw pleidlais; i fod yn wybodus am wleidyddiaeth, ac i ddeall arwyddocâd eu pleidlais. Mae Llywodraeth yr Alban eisoes wedi bod yn gweithio ar hyn gydag Education Scotland, cyn y Refferendwm Annibyniaeth. Dylid gwneud ymdrechion tebyg yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.
b. Gostyngwyd yr oed pleidleisio i 16 ar gyfer Refferendwm Annibyniaeth yr Alban yn 2014. Credir bod cyfran uchel o'r grŵp oed hwn, tua 75%, wedi mynd i bleidleisio[36], o'i gymharu â chanran gyffredinol o 84.6%. Petai'n cael ei basio, byddai Bil Etholiadau'r Alban (Gostwng Oedran Pleidleisio), yn gostwng oed pleidleisio i 16 ym mhob etholiad i Senedd yr Alban a llywodraeth leol yn yr Alban, gan gychwyn gydag etholiad Senedd yr Alban yn 2016.

Argymhelliad

Dylid rhoi pleidlais i bobl ifanc 16 ac 17 oed ym mhob etholiad a refferendwm yn y Deyrnas Unedig. Rhaid i'r Parti Gwladol a'i lywodraethau datganoledig geisio gwella cyfranogiad mewn ysgolion a sicrhau bod mesurau cadarn ar gyfer addysg ddemocrataidd yn cael eu hymgorffori ar draws y cwricwlwm addysg statudol.

6. Trais yn erbyn plant (erthyglau 19, 39, 37(a) a 28(2)

Cam-drin plant yn rhywiol (CSA) ac ecsbloetio plant yn rhywiol (CSE)

a. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar ddatblygiadau ers archwiliad y Deyrnas Unedig yn 2013 o dan y Protocol Dewisol ar Werthu Plant, Puteinio Plant a Phornograffi Plant.
b. Mae sylw'r cyhoedd a'r llywodraeth wedi cael ei hoelio ar ecsbloetio plant yn rhywiol (CSE) yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn arbennig yng nghyd-destun gangiau a grwpiau, yn sgîl achosion proffil uchel o baratoi merched a'u hecsbloetio'n rhywiol, er enghraifft yn Rotherham a Rhydychen, ac ymchwiliadau dilynol lle cafwyd bod awdurdodau ar fai wrth fethu ag atal y cam-drin.[37] Yn arbennig, mae'r adroddiadau

[35] http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-en.pdf
[36] Y Comisiwn Etholiadol (2014), *Scottish Independence Referendum: Report on the Referendum held on 18 September 2014*, t. 64.
[37] Ymchwiliad Annibynnol i Ecsbloetio Plant yn Rhywiol yn Rotherham gan Alexis Jay OBE, cyhoeddwyd ym mis Awst 2014. http://www.rotherham.gov.uk/downloads/file/1407/independent_inquiry_cse_in_rotherham; Oxfordshire LSCB (2015), Serious Case Review into CSE in Oxfordshire: from the experiences of

wedi canfod nad oedd plant yn cael eu credu na'u cymryd o ddifri, a'u bod yn cael eu beio am eu camdriniaeth eu hunain. Mae Llywodraeth yr Alban wedi datblygu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i ymdrin ag Ecsbloetio Plant yn Rhywiol, ond mae pryderon nad yw hynny wedi digwydd mor gyflym ag y dylsai. Yng Ngogledd Iwerddon, yn dilyn ymchwiliad sylweddol gan yr heddlu, cynhaliwyd dau adolygiad allweddol ar CSE yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion y Llywodraeth ers 2013: adolygiad thematig o gydymffurfiaeth ac effeithiolrwydd gweithwyr proffesiynol yng nghyswllt plant a aeth ar goll o ofal, a gynhaliwyd gan y Bwrdd Diogelu, sydd i gyflwyno'i adroddiad ym mis Mehefin 2015, ac Ymchwiliad Annibynnol i Ecsbloetio Plant yn Rhywiol, a gyhoeddodd ei argymhellion ym mis Tachwedd 2014[38]. Ers hynny sefydlwyd nifer o fecanweithiau, gan gynnwys grŵp trosolwg rhyng-adrannol, i roi argymhellion yr Ymchwiliad ar waith a darparu adroddiadau cynnydd.

c. Canfu ymchwiliad dwy flynedd CCE i ecsbloetio plant yn rhywiol mewn gangiau a grwpiau fod ychydig o dan hanner yr awdurdodau lleol wedi nodi 2092 o ddioddefwyr CSE yn 2013.[39] Yn 2012 nododd CCE fod 16,500 o blant mewn perygl o gael eu hecsbloetio'n rhywiol mewn cyfnod o 12 mis.[40] Mae CCE yn pryderu bod gormod o dioddefwyr ecsbloetio rhywiol heb gael eu hadnabod o hyd, ac nad ydynt yn derbyn yr help y mae arnyn nhw ei angen.

d. Yng Nghymru mae peth cynnydd wedi'i wneud, er enghraifft trwy gyhoeddi protocol amlasiantaeth ar CSE, Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, a ddiwygiwyd yn 2013.[41] Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar Ddiogelu Plant a Phobl Ifanc rhag Ecsbloetio Rhywiol yn 2010.[42] Comisiynwyd Barnardo's Cymru gan Lywodraeth Cymru yn 2011 i ddarparu hyfforddiant ar lefel genedlaethol, i gynnal gweithrediad y canllawiau. Mae hyfforddiant pellach ar ganllawiau diogelu wedi cael ei estyn ar draws Cymru yn ystod 2015. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnull grŵp gorchwyl a gorffen i ddatblygu Cynllun Gweithredu Cymru Gyfan ar gyfer mynd i'r afael ag Ecsbloetio Plant yn Rhywiol yng Nghymru, ac i sicrhau cysondeb wrth gasglu data.

e. Nid yw plant yn cael eu cynnwys yn y broses o ddylunio a datblygu mesurau lleol i'w hamddiffyn rhag ecsbloetio rhywiol. Dim ond 31% o'r Byrddau Lleol Diogelu Plant (LSCBs) yn Lloegr sydd wedi cynnwys plant wrth ddylunio strategaethau CSE. Nid oes llawer o dystiolaeth o farn a phrofiadau plant yng nghyswllt ecsbloetio plant yn rhywiol yn yr Alban.[43] Fodd bynnag, cafodd plant eu cynnwys mewn grŵp ymgynghorol gan Ymchwiliad Annibynnol Gogledd Iwerddon, ac roedden nhw'n ymatebwyr/rhanddeiliaid allweddol. Mae'r Comisiynwyr yn gobeithio y bydd arferion cyfranogol tebyg yn hysbysu ymateb parhaus y Deyrnas Unedig a'r cenhedloedd datganoledig i CSE, ac i bob math o gam-drin.

Children A, B, C, D, E and F. **http://www.oscb.org.uk/wp-content/uploads/SCR-into-CSE-in-Oxfordshire-FINAL-FOR-WEBSITE.pdf**

[38] **http://www.rqia.org.uk/cms_resources/CSE%20Inquiry%20Report%20Final_for_Publication.pdf**

[39] If it's not better, it's not the end

[40] Adroddiad ymchwiliad interim.

[41] **http://www.awcpp.org.uk/wp-content/uploads/2014/03/CSE-Protocol-Review-FINAL-REVISION-October-2013.pdf**

[42] **http://wales.gov.uk/docs/dhss/publications/policy/110107guidanceen.pdf**

[43] Brodie a Pearce (2012), *Exploring the Scale and Nature of Child Sexual Exploitation in Scotland*, Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth yr Alban.

f. Mewn llawer rhan o Loegr mae heddluoedd a Byrddau Lleol Diogelu Plant wedi rhoi strategaethau ar waith ar gyfer ymateb i CSE – mae 92% o'r Byrddau hynny bellach wedi cynhyrchu strategaeth CSE, o'i gymharu â 57% yn unig o'r Byrddau oedd â strategaeth yn 2013. Fodd bynnag, tystiolaeth CCE yw nad yw'r cynnydd ar lefel strategol wedi hidlo lawr i arfer rheng flaen eto. Mae Byrddau Lleol Diogelu Plant, heddluoedd a chyrff sector gwirfoddol i gyd wedi nodi nad yw strategaethau CSE cryf o reidrwydd yn arwain at arfer effeithiol ar y rheng flaen.
g. Nododd Ymchwiliad CCE ac Ymchwiliad Gogledd Iwerddon fel ei gilydd fod gweithio cydlynus a rhannu gwybodaeth yn hanfodol er mwyn amddiffyn plant rhag ecsbloetio rhywiol. O'r 38 heddlu yn Lloegr, mae gan 31 brotocol rhannu gwybodaeth llawn ar waith gyda'r gwasanaethau plant, ac mae 81% o'r LSCBs yn adrodd bod cytundeb rhannu gwybodaeth yn ei le yn eu hardal. Fodd bynnag, mae mwy na hanner yr heddluoedd yn adrodd eu bod wedi wynebu rhwystrau i rannu gwybodaeth ar draws asiantaethau.
h. Yn archwiliad Mehefin 2014 o adroddiad parti gwladol y Deyrnas Unedig ar y Protocol Dewisol ar Werthu Plant, cyfeiriodd y Pwyllgor at ddeddfwriaeth Gogledd Iwerddon a'r angen am wneud newidiadau i sicrhau ei bod yn bodloni safonau rhyngwladol; roedd hyn yn cynnwys annog partïon Gwladol i ddiwygio'r holl ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod pob plentyn hyd at 18 oed yn cael eu hamddiffyn rhag pob math o drosedd a gwmpasir gan y Protocol Dewisol. Mae hyn wedi cael ei ailadrodd mewn argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Ymchwiliad Annibynnol dan arweiniad Arbenigwyr yng nghyswllt CSE.[44]
i. Fodd bynnag, ni ddylai'r ffocws hanfodol ar CSE ddisodli strategaethau i ymdrin ag CSA yn ei holl ffurfiau. Ymhellach, ni ddylai'r sylw sy'n cael ei roi ar hyn o bryd i achosion hanesyddol o CSA trwy erlyniadau ac ymchwiliadau ddisodli'r gwaith o atal CSA parhaus/cyfredol, gan gynnwys CSE. Ym mis Tachwedd 2012, sefydlwyd ymchwiliad annibynnol, Operation Pallial, i edrych ar honiadau penodol o gam-drin plant yn y gorffennol yng ngogledd Cymru. Ym mis Ionawr 2015 cyhoeddodd ComPlantCymru adroddiad ar ganlyniadau'r ymchwiliad, sef "Dysgu'r Gwersi: Ymgyrch Pallial".[45] Roedd yr adroddiad hwn yn ymwneud â gwrando ar leisiau'r goroeswyr a chyflwyno gwersi i sefydliadau ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod modd cadw'r plant sydd mewn gofal heddiw yn ddiogel.
j. Mae'r Deyrnas Unedig yn dal heb gadarnhau Confensiwn Cyngor Ewrop ar Amddiffyn Plant rhag Ecsbloetio Rhywiol a Cham-drin Rhywiol.

[44] http://www.rqia.org.uk/publications/rqia_reviews.cfm
[45] http://www.childcomwales.org.uk/uploads/publications/528.pdf

Argymhellion

Rhaid i Barti Gwladol y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig sicrhau bod plant sy'n profi unrhyw fath o gamdriniaeth rywiol yn derbyn cwnsela a therapi priodol fel blaenoriaeth.

Rhaid i asiantaethau sefydlu arferion gwaith a rhannu gwybodaeth digonol rhwng asiantaethau, er mwyn amddiffyn plant rhag camdriniaeth rywiol, gan gynnwys ecsbloetio plant yn rhywiol.

Dylid clywed a rhoi sylw i farn a phrofiadau plant wrth ddatblygu pob mesur i wrthweithio cam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys ecsbloetio plant yn rhywiol.

Dylai'r Parti Gwladol gadarnhau Confensiwn Cyngor Ewrop ar Amddiffyn Plant rhag Ecsbloetio Rhywiol a Cham-drin Rhywiol.

Dylai'r Parti Gwladol ddeddfu i sicrhau bod pob plentyn hyd at 18 oed, ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig, yn cael eu hamddiffyn rhag pob math o drosedd a gwmpasir gan y Protocol Dewisol ar Werthu Plant.

Masnachu mewn Plant

k. Yn 2008 argymhellodd y Pwyllgor y dylai safonau amddiffyn plant ar gyfer plant sydd wedi cael eu masnachu fodloni safonau rhyngwladol. Gwnaed peth cynnydd o ran y Sylw Terfynol hwn. Mae deddfwriaeth wedi cael ei datblygu ar draws y Deyrnas Unedig i ymdrin â phenomen masnachu mewn pobl, gan gynnwys Bil Ecsbloetio a Masnachu Pobl (yr Alban), Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a Deddf Ecsbloetio a Masnachu Pobl (Darpariaethau Pellach a Chefnogaeth i Ddioddefwyr) 2015 yng Ngogledd Iwerddon.

l. Mae deddfwriaeth Gogledd Iwerddon yn darparu mwy o gefnogaeth i ddioddefwyr masnachu ac ecsbloetio pobl, ac mae'n cyflawni'r rhwymedigaethau a geir yng Nghonfensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Pobl. Elfen arbennig o arwyddocaol yw darparu gwarcheidwad annibynnol sydd â phwerau cyfreithiol ar gyfer pob plentyn a wahanwyd sy'n destun rheolaeth fewnfudo. Bydd y Gwarcheidwad Annibynnol newydd yn cyfrannu at gynllun i ddiogelu a hybu lles y plentyn yn y dyfodol, ac yn cynorthwyo i ddod i gysylltiad ag aelodau o deulu'r plentyn, os yw'r plentyn yn dymuno hynny ac mae er lles pennaf y plentyn. Y bwriad yw y bydd y ddarpariaeth ar waith erbyn diwedd 2015, er nad oes rheoliadau ar gyfer y Ddeddf wedi'u cyflwyno eto.

m. Mae Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, a basiwyd yn ddiweddar, hefyd yn darparu ar gyfer eiriolwyr annibynnol masnachu mewn plant yng Nghymru a Lloegr, i gynrychioli

a chefnogi plant lle mae sail resymol i gredu eu bod wedi dioddef cael eu masnachu. Mae hefyd wedi sefydlu Comisiynydd Atal Caethwasiaeth sy'n gweithio ar draws y Deyrnas Unedig.

n. Yn 2011, cyhoeddodd SCCYP *Scotland: A safe place for child traffickers?*, oedd yn disgrifio gwendidau pwysig yn y broses o adnabod a chefnogi plant oedd wedi dioddef cael eu masnachu, ac wrth ddal ac erlyn y cyflawnwyr. Gwnaed cynnydd yn erbyn nifer o argymhellion yr adroddiad, ac mae cyfleoedd i wneud gwelliannau pellach trwy Fil Ecsbloetio a Masnachu mewn Pobl (yr Alban), sydd gerbron Senedd yr Alban ar hyn o bryd, gan gynnwys trwy wneud Gwasanaeth presennol Gwarcheidwaid yr Alban yn drefn statudol.

o. Yng Nghymru bellach mae Cydlynydd Atal Caethwasiaeth a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd *Diogelu Plant a allai fod wedi cael eu Masnachu,* Llywodraeth Cymru, 2008, yn gosod cyfrifoldeb ar Fyrddau Lleol Diogelu Plant i roi sylw i anghenion plant a allai fod wedi cael eu masnachu. Yn 2011 cynhyrchodd Grŵp Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan brotocol diwygiedig i dywys y gweithredu mewn achosion lle mae pryderon bod plentyn wedi cael ei fasnachu.[46]

Argymhelliad

Dylid trefnu gwarcheidwaid annibynnol statudol ar gyfer pob plentyn heb ei hebrwng ac a wahanwyd ar draws y Parti Gwladol.

Cosb gorfforol/amddiffyniad cyfartal rhag trais

p. Mae cosb gorfforol yn dal yn gyfreithlon fel mater o gyfraith ddomestig yn y Deyrnas Unedig yn amgylchedd y teulu, ac mewn rhai lleoliadau addysg rhan amser yng Nghymru a Lloegr. Dywedodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig o 2010-15 nad oedd yn bwriadu diddymu Adran 58 o Ddeddf Plant 2004 sydd yn darparu amddiffyniad "cosb resymol" yng Nghymru a Lloegr i rieni, neiniau a theidiau, nanis, gwarchodwyr plant ac ati yn wyneb cyhuddiad o gurfa/ymosodiad cyffredin. Yn yr un modd, er bod adran 51 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol (yr Alban) 2003 yn gwahardd oedolion rhag taro pen plant, eu hysgwyd a defnyddio teclyn i'w 'cosbi', mae'r Deddf honno yn darparu amddiffyniad "ymosodiad cyfiawnadwy" yn wyneb cyhuddiad o ymosod ar blentyn. Yng Ngogledd Iwerddon nid oes cynlluniau i ddiddymu Erthygl 2 o Orchymyn Diwygio'r Gyfraith (Amrywiol Ddarpariaethau)(Gogledd Iwerddon) 2006 sy'n darparu ar gyfer amddiffyniad cosbedigaeth resymol i blentyn yn wyneb cyhuddiad o ymosod arno/arni. Er gwaethaf ymrwymiadau blaenorol mewn egwyddor i ddeddfu ar gyfer amddiffyniad cyfartal rhag niwed, mae Llywodraeth Cymru wedi methu â chyflwyno'r cyfryw fesur.

[46] http://www.awcpp.org.uk/wp-content/uploads/2014/03/All-Wales-Practice-Guidance-for-Safeguarding-Children-Who-May-Have-Been-Trafficked.pdf

Argymhelliad

Dylai'r Parti Gwladol a'r llywodraethau datganoledig wahardd pob cosb gorfforol ar unwaith yn y teulu ac ym mhob sefydliad arall a mathau o ofal amgen, gan gynnwys trwy ddirymu amddiffyniadau cyfreithiol, a mynd ati'n rhagweithiol i hybu ffyrdd cadarnhaol, di-drais o fagu plant a rheoli ymddygiad.

Trais yn erbyn benywod a phlant

q. Mae cam-drin domestig yn parhau'n amlwg yn y Deyrnas Unedig, gydag effeithiau difrifol ar blant. Mae 25% o blant yn y Deyrnas Unedig yn cael dod i gysylltiad â cham-drin domestig rhwng oedolion yn eu cartref ar ryw adeg yn ystod eu plentyndod (hyd at 18 oed) ac roedd 6% o'r holl blant yn yr un astudiaeth wedi dod i gysylltiad â cham-drin domestig difrifol ar ryw adeg yn ystod eu plentyndod.[47] Roedd dau draean (62%) o'r plant mewn astudiaeth bwysig a oedd wedi cael profiad o gam-drin domestig hefyd wedi dioddef niwed uniongyrchol, yn fwyaf aml camdriniaeth gorfforol neu emosiynol, neu wedi cael eu hesgeuluso. Roedd plant yn dioddef canlyniadau iechyd meddwl a chorfforol lluosog o ganlyniad i ddod i gysylltiad â cham-drin domestig. Ymhlith effeithiau eraill, roedd gan fwy na hanner (52%) broblemau ymddygiad, roedd dros draean (39%) yn cael anhawster addasu yn yr ysgol, ac roedd bron dau draean (60%) yn teimlo'n gyfrifol neu mai nhw oedd ar fai am ddigwyddiadau negyddol. Roedd chwarter o'r plant oedd wedi profi cam-drin domestig yn arddangos ymddygiad camdriniol eu hunain.[48]

r. Mae'r Comisiynwyr yn croesawu datblygiad diweddar diffiniadau o drais domestig gan asiantaethau ac yn gyfreithiol, er mwyn ymdrin â mwy o batrymau o gam-drin. Yn 2013 newidiwyd y diffiniad o drais domestig yn Lloegr (a) i gynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed; a (b) i gynnwys cam-drin emosiynol (ymddygiad sy'n gorfodi ac yn rheoli); mae diffiniad ehangach eisoes yn ei le yn yr Alban. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cyflwyno trosedd newydd, sef "ymddygiad sy'n rheoli neu sy'n gorfodi mewn perthynas agos neu deuluol yng Nghymru a Lloegr" yn 2015[49] ac mae trosedd debyg yn cael ei hystyried yn yr Alban. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Weithrediaeth wedi cynnig estyn y Drosedd yn Neddf Trais Domestig, Trosedd a Dioddefwyr (2004) i gynnwys achosi neu ganiatáu niwed corfforol i blentyn neu oedolyn agored i niwed.

s. Yn 2015 canfu'r Cyd-bwyllgor Seneddol ar Hawliau Dynol y gallai llawer mwy gael ei wneud mewn ysgolion i ymdrin ag agenda ataliaeth. Codwyd pryderon hefyd ynghylch yr effaith a gafwyd yn sgîl lleoleiddio penderfyniadau ynghylch cefnogaeth i ddioddefwyr – gan awgrymu mai'r rhai yr effeithiwyd fwyaf arnynt yw'r rhai mwyaf agored i niwed, a'r rhai y mae angen gwasanaethau arbenigol arnynt (gan gynnwys llochesi). Yn ein barn ni, mae hyn yn debygol o gynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed: nid yw gwasanaethau o reidrwydd bob amser yn adlewyrchu eu hanghenion, nac

---

[47] Radford et al., 2011, 'Child abuse and neglect in the UK today', NSPCC

[48] *In plain sight: The evidence from children exposed to domestic abuse*, Adroddiad Ymchwil CAADA, Chwefror 2014

[49] Adran 76 Deddf Troseddu Difrifol 2015.

amgylchiadau penodol y cam-drin y maen nhw'n ei wynebu. Rydym ni'n pryderu ynghylch lefel y cam-drin domestig ymhlith cyfoedion yn y grŵp oed hwn; mae angen sicrhau cydlyniad strategol ar lefel llywodraeth ganolog ac asiantaethau ynghylch trais domestig, ymddygiad rhywiol niweidiol plant, ac ecsbloetio plant yn rhywiol (CSE).

t. Mae ymchwil a gomisiynwyd gan SCCYP wedi amlygu pwysigrwydd canfod barn plant mewn achosion cyfraith teulu. Bu'n adolygu triniaeth 155 o blant o 97 achos cyswllt lle cafwyd honiadau o gam-drin. Canfu'r ymchwil fod llysoedd yn ymdrechu i ganfod barn plant a bod eu barn yn fwy tebygol o gael ei chasglu mewn achosion lle ceir honiadau o gam-drin domestig, ond lle na chaiff adroddiadau cefndir eu paratoi, nid yw barn plant yn cael ei chasglu, ac mae'r rhagdybiaeth y bydd cyswllt er lles pennaf y plentyn yn debygol o bennu canlyniad yr achos. Nid yw llawer o'r plant ifancaf a mwyaf agored i niwed yn cael eu clywed ar hyn o bryd, a rhagdybio cyswllt sy'n cael yr effaith fwyaf arnynt.

Argymhellion

Dylai'r Deyrnas Unedig gadarnhau Confensiwn Cyngor Ewrop ar atal a gwrthweithio trais yn erbyn benywod a thrais domestig ('Confensiwn Istanbwl').

Dylai'r Parti Gwladol a'r llywodraethau datganoledig gydnabod ac ymdrin â'r problemau a nodwyd yn Sylw Cyffredinol Rhif 18 y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn ynghylch arferion niweidiol yn ei deddfwriaeth ddomestig, a sicrhau bod mecanweithiau priodol yn eu lle i roi'r darpariaethau hyn ar waith yn ymarferol.

Dylid gweld cam-drin domestig fel mater hawliau plant, ac mae'n rhaid gwneud profiadau plant yn fwy gweladwy. Dylai pawb sy'n casglu barn plant gael eu hyfforddi ynghylch manteision cyfranogiad i blant a dulliau o gyflawni hynny (gyda mewnbwn arbenigol ar gael yn achos plant ifanc iawn) a derbyn deunyddiau i gynnal cyfranogiad yn ymarferol.

7. Amgylchedd y teulu a gofal amgen (erthyglau 5, 9, 10, 11, 18, 20, 21, 25, 27(4))

Ailuno teuluoedd

a. Ym mis Gorffennaf 2012 newidiodd y Swyddfa Gartref y rheolau ar gyfer pobl sydd am ddod i'r Deyrnas Unedig neu aros yno ar sail bywyd teuluol gyda dinesydd Prydeinig,

person sydd wedi ymsefydlu neu ffoadur yn y Rheolau Mudo i Deuluoedd.[50] Mae cyflwyno gofyniad llawer uwch o ran isafswm incwm ar gyfer gwŷr/gwragedd a phartneriaid o'r tu allan i Ardal Economaidd Ewrop wedi arwain at orfodi teuluoedd i ymwahanu, gan gynnwys gwahanu plant oddi wrth eu rhiant nad yw'n dod o AEE. Ym marn y Comisiynwyr, dylai'r Rheolau gefnogi plant i fyw gyda'u teuluoedd yn y Deyrnas Unedig, lle bo'u lles pennaf yn galw am hynny.[51] Nid yw'r Llywodraeth wedi adolygu gweithrediad y Rheolau Mudo i Deuluoedd eto, ac yn arbennig y gofyniad o ran isafswm incwm, fel yr addawyd wrth eu cyflwyno. Mae'r Comisiynwyr yn pryderu bod y Rheolau hyn wedi arwain at dorri Erthyglau 9 a 10 o'r Confensiwn fel mater o drefn.

Argymhelliad

Dylai'r Parti Gwladol adolygu gweithrediad y Rheolau Mudo i Deuluoedd, ac yn arbennig, y gofyniad o ran isafswm incwm ac effaith y Rheolau hyn ar hawliau plant o dan y Confensiwn. Dylai penderfyniadau a wneir o dan y Rheolau sy'n effeithio ar blant gynnwys lles pennaf y plentyn fel prif ystyriaeth bob amser.

Plant sy'n derbyn gofal

b. Mae'r Comisiynwyr yn credu bod ymyrraeth gynnar yn hanfodol er mwyn osgoi derbyn plant i ofal y wladwriaeth lle bo modd. Rydym yn pryderu, felly, ynghylch canlyniadau mesurau caledi, sydd wedi arwain at golli gwasanaethau cymorth cynnar i fagu plant.[52]

c. Mae cefnogi plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal i gyflawni eu potensial yn nod a rennir ar gyfer Comisiynwyr Plant y Deyrnas Unedig. Mae'r Comisiynwyr yn pryderu ynghylch y diffyg cynnydd o ran gwella'r canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal ac sydd â phrofiad o ofal mewn nifer o feysydd, gan gynnwys iechyd; addysg; ac ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r Comisiynwyr fel ei gilydd o'r farn y dylai'r system derbyn gofal fod yn helpu pob plentyn a pherson ifanc i gyflawni eu potensial, trwy hwyluso lleoliadau mwy sefydlog, parhaol a diogel, fel eu bod yn gallu symud ymlaen i oedolaeth iach[53]. Er mwyn lleihau'r differynnau yng nghanlyniadau plant sy'n derbyn gofal, rhaid darparu cefnogaeth dymor hwy i'r rhai sy'n delio â chanlyniadau cam-drin neu esgeuluso yn y gorffennol. Dylai adferiad

---

[50] https://www.gov.uk/government/publications/immigration-rules-appendix-fm.

[51] http://www.appgmigration.org.uk/sites/default/files/APPG_family_migration_inquiry_report-Jun-2013.pdf Gweler llythyr gan CCE http://www.childrenscommissioner.gov.uk/content/publications/content_721

[52] http://www.bbc.co.uk/news/education-32831311

[53] Jones, R., Everson-Hock, ES, Papaioannou, D., Guillaume, I., Goyder, E., Chilcott, J., Cooke, J., Payne, N., Duernas, A., Sheppard, L.M., Swann, C. 2011. Factors associated with outcomes for looked-after children and young people: a correlates review of the literature. *Child: Care, Health and Development,* 37, 5, 613-622.

yn unol ag Erthygl 39 o CCUHP a meithrin gwydnwch at y dyfodol fod yn ffocws pwysig i'r system ofal, trwy leoliadau priodol a chefnogaeth ychwanegol.

d. Bydd Deddf Plant a Phobl Ifanc (yr Alban) 2014 yn gofyn bod cynllun y plentyn sy'n derbyn gofal yn cael ei integreiddio'n llwyr â'r Cynllun Plentyn cyfannol, a bydd yn sicrhau bod gan blentyn sy'n derbyn gofal hawl i aros mewn gofal os ydyw mewn gofal preswyl, maeth neu gan berthnasau, nes ei fod/bod yn 21 oed, ac â hawl i dderbyn darpariaethau ôl-ofal hyd at 26 oed. Mae'r Ddeddf yn darparu diffiniad clir o rianta corfforaethol, ac mae'n diffinio pa gyrff cyhoeddus sydd â dyletswyddau rhianta corfforaethol. Er bod y ddeddfwriaeth newydd yn cynnwys ystod eang o ddarpariaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mae'n bwysig bod y canllawiau sy'n cyd-fynd â nhw wedi'u seilio ar hawliau, a bod eu gweithrediad yn derbyn adnoddau llawn a monitro priodol.

e. Ym mis Mawrth 2014 roedd 5,756 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru, cynnydd o 23% ers 2009, i 5,755.[54] Canfu adolygiad statudol gan ComPlantCymru nad yw plant sy'n derbyn gofal bob amser yn cael yr hawl i gael eu clywed mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu dyfodol.[55] Mae rheoliadau a chanllawiau a luniwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cynnig gorfodaeth angenrheidiol i sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cyrchu'r gwasanaethau gofal a chefnogaeth y mae ganddynt hawl i'w derbyn, yn ogystal â gwella cydlyniad addysg, iechyd a gwasanaethau cefnogi eraill.

f. Ym mis Mawrth 2015 roedd 2,858 o blant yn derbyn gofal yng Ngogledd Iwerddon. Dyma'r nifer uchaf ers cyflwyno'r Gorchymyn Plant yn 1995. Mae'r plant hyn yn profi anawsterau tebyg i blant sy'n derbyn gofal mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, yn arbennig yng nghyswllt sefydlogrwydd a dilyniant gofal, yr angen am gefnogaeth bontio bellach i oedolaeth, a'u cyfranogiad wrth gynllunio gofal. Canfu arolwg diweddar o blant sy'n derbyn gofal yng Ngogledd Iwerddon mai 39% yn unig o blant 8-11 oed oedd yn dweud bod rhywun wedi siarad â nhw am beth oedd yn eu cynllun gofal, a bod 62% o'r plant 12 i 15 oed heb gopi, neu heb wybod oedd ganddyn nhw gopi o'u cynllun gofal.[56] Fel yn achos plant sy'n derbyn gofal mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, mae llawer o blant sy'n derbyn gofal yng Ngogledd Iwerddon yn tangyflawni'n sylweddol ym myd addysg. O'r plant a gofnodwyd fel rhai oedd yn derbyn gofal, a adawodd yr ysgol yn 2012/13, dim ond 27% a lwyddodd i gyflawni 5 TGAU/GNVQ Gradd A* i C, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, o'i gymharu ag 80% o'r plant oedd yn gadael yr ysgol yn gyffredinol. Roedden nhw bum gwaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd o'r ysgol na phlant yn y boblogaeth ysgol gyffredinol.[57]

g. Yn Lloegr mae'r Siarter a'r strategaeth ar draws y llywodraeth i'r rhai sy'n gadael gofal yn ddatblygiad pwysig, ac mae CCE yn gobeithio y bydd ei nodau'n cael eu cyflawni'n llwyddiannus. Mae ComPlantCymru'n croesawu darpariaeth y Llywodraeth ddatganoledig ar gyfer caniatáu i blant sydd mewn gofal maeth yng Nghymru estyn eu trefniadau byw ar ôl 18 oed nes iddynt gael eu pen-blwydd yn 21. Yn yr Alban, mae hyn hefyd yn berthnasol i blant mewn cartrefi preswyl i blant; fodd bynnag, nid oes darpariaeth gyfatebol yn achos cartrefi plant mewn rhannau eraill o'r Deyrnas

[54] https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Servies/Childrens-Services/Children-Looked-After

[55] **https://childcom.org.uk/uploads/publications/467.pdf**

[56] Our Life in Care 2013: Young people's report, VOYPIC's third CASI survey, VOYPIC, Awst 2014.

[57] DHSSPS (2014), Children in Care in Northern Ireland 2012-13, Statistical Bulletin.

Unedig. Mae llawer o blant yn wynebu cynlluniau i'w symud unwaith maen nhw'n 18, hyd yn oed pan fyddai hynny'n torri ar draws addysg bellach. Yng Nghymru, nid oes cyllid ychwanegol wedi cael ei ddarparu er mwyn i awdurdodau lleol roi'r cynllun trefniadau byw ôl-18 ar waith, gan gyfyngu ar allu awdurdodau lleol a darparwyr maethu i drefnu cartrefi addas, a chyfyngu o ganlyniad ar gyfleoedd pobl ifanc i elwa o'r cynlluniau hyn.

h. Mae'r Comisiynwyr yn tanlinellu'r angen am wasanaethau sy'n cefnogi plant sy'n dychwelyd at eu teuluoedd o ofal.[58] Ymhellach, er y dylai aros yn eu lleoliad gael ei gefnogi fel dewis, mae llawer o achosion lle na fydd hyn yn opsiwn. Mae'n bwysig ymdrin ag ansawdd ac ystod yr opsiynau llety ar gyfer rhai sy'n gadael gofal a phobl ifanc eraill agored i niwed rhwng 16 ac 25 oed. Mae hyn yn galw am well rheoleiddio ac arolygu. Ar ben hynny, dylai awdurdodau lleol sicrhau dull gweithredu cyson ar gyfer ymateb i anghenion llety a chefnogaeth pobl ifanc dros 16, yn unol â chyfraith achosion berthnasol.[59]

i. Bu cryn ffocws ym mholisi diweddar y llywodraeth yng Nghymru a Lloegr ar fabwysiadu ac ar ddatrys y sefyllfa'n gynt o ran gweinyddiaeth ac yn y llysoedd. Er bod y Comisiynwyr yn croesawu ffocws ar blant a gofal, ac yn credu ei bod hi'n bwysig iawn mwyafu cyfle plant i sicrhau trefniant parhaol trwy ddilyn y llwybr hwn, a darparu cefnogaeth hanfodol ar ôl mabwysiadu, nid yw mabwysiad yn gynllun priodol nac yn opsiwn i lawer o blant sy'n derbyn gofal. Mae angen recriwtio, hyfforddi, cefnogi a datblygu gofalwyr maeth a sicrhau bod ymdrechion diweddar i wella ansawdd gofal preswyl yn cael eu cynnal. Mae angen hefyd am sicrhau bod gwasanaethau ar gyfer plant mewn gofal yn gweithio i gynnal eu cysylltiadau â'u teulu ehangach ac oedolion cefnogol sy'n gallu cadw mewn cysylltiad ar hyd eu cyfnod mewn gofal i mewn i oedolaeth.

j. Er gwaethaf cynigion drafft yn 2006 i ddiwygio deddfwriaeth fabwysiadu Gogledd Iwerddon, ni fu datblygiadau pellach, ac o ganlyniad mae'r system fabwysiadu yng Ngogledd Iwerddon wedi dyddio, ac nid yw'n addas at y diben bellach.

[58] http://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/supporting-children-families-returning-home-from-care.pdf

[59] *R (G) v London Borough of Southwark* [2009] UKHL 26.

Argymhellion

Dylai pob plentyn sy'n gadael gofal dderbyn gwasanaethau cefnogi a byw wedi'u hariannu'n ddigonol, yn unol â'u hangen a aseswyd. Dylai fod gan blant mewn cartrefi preswyl i blant hawl i gael mynediad i'r cynlluniau.

Dylai'r Parti Gwladol ddarparu'r arweinyddiaeth strategol angenrheidiol i sicrhau bod darpariaeth eiriolaeth annibynnol ansawdd uchel ar gael i bob plentyn a pherson ifanc perthnasol, er mwyn sicrhau eu cyfranogiad wrth gynllunio gofal ac mewn penderfyniadau eraill sy'n effeithio arnynt.

Dylai'r Parti Gwladol ddarparu tystiolaeth glir y dylid gwneud yr holl benderfyniadau ynghylch y gofal ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal yn unol â CCUHP, yn arbennig Erthyglau 3 a 12. Ar ben hynny, fel rhieni corfforaethol, dylai'r awdurdodau perthnasol sicrhau gwasanaethau digonol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys cefnogaeth addysg a CAMHS.

8. Anabledd, iechyd sylfaenol a lles (erthyglau 6(2), 18(3), 24, 24(3), 26, 27(1)-(3), 33

Iechyd meddwl

a. Yn 2008, argymhelliad Sylwadau Terfynol y Pwyllgor oedd y dylid defnyddio adnoddau ychwanegol a gwell capasiti i ymateb i anghenion plant â phroblemau iechyd meddwl ar draws y wlad, gan roi sylw arbennig i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf, gan gynnwys plant a amddifadwyd o ofal rhieni, plant yr effeithiwyd arnynt gan wrthdaro, y rhai sy'n byw mewn tlodi a'r rhai sydd mewn gwrthdrawiad â'r gyfraith.

b. Er i Gyllideb Llywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Mawrth 2015 gyhoeddi y bydd £1.25 biliwn ychwanegol yn cael ei wario ar wasanaethau iechyd meddwl i blant a mamau newydd yn Lloegr, mae tanwariant aruthrol ar wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc (CAMHS) ar draws y Parti Gwladol[60] ac mae hyn wedi effeithio ar argaeledd gwasanaethau i blant ag anghenion iechyd meddwl ar draws y Parti Gwladol. Mae'n rhaid i gyllid newydd yn Lloegr a'r gyfran gymesur ohono yn y gweinyddiaethau datganoledig gael ei wario'n briodol, ac ymateb i anghenion plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl.

c. Yng Nghymru, mae lefel y gwariant wedi parhau'n 0.8% o wariant y Gwasanaeth Iechyd Gwladol o 2006-7 tan 2013, er gwaethaf cynnydd yn y galw a'r ffaith bod rhai gofynion gwasanaeth wedi ehangu o ganlyniad i Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010[61]. Mae cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru y bydd £7.6 miliwn o arian

[60] Cyn 2015, gwelwyd gostyngiad gwirioneddol o 6% yn y cyllidebau yn Lloegr ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i blant ers 2010 – mae hyn yn cyfateb i ryw £50 miliwn.

[61] http://gov.wales/docs/statistics/2014/140611-nhs-expenditure-programme-budgets-2012-13-en.pdf

ychwanegol ar gyfer CAMHS bob blwyddyn i'w groesawu.[62] Fodd bynnag, mae effaith hyn ar y ddarpariaeth heb ei gwireddu eto.

d. Yn hanesyddol, amcangyfrifwyd bod gan Iwerddon gyfradd 25% yn uwch o amlygrwydd salwch meddwl yn gyffredinol na Lloegr, yn bosibl yn sgîl etifeddiaeth y gwrthdaro, a thrawma ar draws y cenedlaethau. [63] Yn 2012, roedd cyfraddau cyfartalog hunanladdiad dros gyfnod o 5 mlynedd yng Ngogledd Iwerddon 4 gwaith yn uwch nag yng Nghymru a Lloegr yn achos pobl ifanc 15-19 oed, ac 17 gwaith yn uwch yn achos plant 10-14 oed[64]. Fodd bynnag, yn 2013-14, dim ond 7.8% o gyfanswm y gwariant iechyd meddwl a gynlluniwyd a ddyrannwyd i wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Ngogledd Iwerddon[65]. Mae mesurau caledi diweddar yn debygol o effeithio ar ariannu a buddsoddi sydd eisoes yn annigonol ym mhob haen o CAMHS Gogledd Iwerddon.[66]

e. Ym mis Mai 2015, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban y byddai £85 miliwn ychwanegol yn cael ei wario ar iechyd meddwl yn yr Alban yn ystod y pum mlynedd nesaf. Defnyddir hyn yn rhannol i wella CAMHS ac estyn mynediad at therapïau seicolegol a gwasanaethau eraill. Yn hynny o beth mae i'w groesawu, ond mae angen buddsoddiad pellach.

f. Ar draws y Parti Gwladol, cafwyd cryn effaith negyddol ar wasanaethau yn sgîl lleihau adnoddau, gan gynnwys diffyg mynediad mewn argyfwng, amserau aros hir, triniaethau amhriodol, gweithlu annigonol, diffyg cyfleusterau arbenigol a diffyg integreiddio gwasanaethau.[67] [68] Mae pryderon penodol ynghylch plant sy'n cyflawni neu sydd mewn perygl o gyflawni troseddau difrifol, a'r rhai sydd â hanes o gamdriniaeth ac esgeuluso blaenorol, gan gynnwys CSA. Mae ar blant sy'n troseddu angen timau arbenigol sy'n darparu ymyrraeth ddwys iddyn nhw, eu rhieni/gofalwyr, a staff mewn lleoliadau cyfiawnder ieuenctid. Fodd bynnag, mae diffyg darpariaeth CAMHS ar gyfer y grŵp hwn; er enghraifft, nid oes ond un tîm fforensig CAMHS yn yr Alban, ac nid oes digon o staff yng ngwasanaeth lleol ardal Sefydliad Troseddwyr Ifanc (YOI) mwyaf yr Alban. Dylid cynnig ymyrraeth gynnar trwy CAMHS i blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, er mwyn lleihau'r nifer sy'n gorfod mynd ymlaen i wasanaethau oedolion. Mae gwasanaethau'n cael trafferth ymdopi oherwydd nifer uwch o atgyfeiriadau, a phrinder staff, a gall hynny arwain at risg iechyd meddwl uwch i rai plant, er y gallai ymyrraeth gynharach fod wedi atal hynny.

g. Bydd toriadau i wasanaethau ataliol cyffredinol, [69] ac i ddarpariaeth gwasanaeth ieuenctid, yn arwain at fwy o angen am ymyriadau CAMHS mwy sylweddol. Yng Nghymru, er gwaethaf y ffaith bod strategaeth genedlaethol y llywodraeth i bob oed

---

[62] **http://gov.wales/newsroom/healthandsocialcare/2015/10182787/?lang=en**

[63] Adolygiad Bamford o Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu, A Vision of a Comprehensive Child and Adolescent Mental Health Service, ar gael o http://www.dhsspsni.gov.uk/camh-vision-comprehensive-service.pdf

[64] Bwrdd Diogelu Gogledd Iwerddon (2014), Adroddiad Blynyddol ar gyfer y Cyfnod 31 Mawrth 2014, ar gael o http://www.safeguardingni.org/sites/default/files/sites/default/files/imce/Annual%20report%20v2.0.pdf

[65] **http://www.mediafire.com/view/m7ut7demwwk2qz9/Age_GFS_Press_Release.docx**

[66] http://www.dhsspsni.gov.uk/showconsultations?txtid=75128

[67] **http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201415/cmselect/cmhealth/342/342.pdf**

[68] http://gov.wales/topics/health/nhswales/healthservice/mental-health-services/strategy/?lang=en

[69] Er enghraifft, yng Ngogledd Iwerddon, cyhoeddwyd y bydd toriad o £2 filiwn i Gronfa Blynyddoedd Cynnar DE, a gostyngiadau o £1 filiwn i Gyllid Dechrau'n Deg yng nghyllideb 15/16.

yn 2012 yn pwysleisio hyn fel blaenoriaeth[70], mae'r dystiolaeth yn parhau i awgrymu bod gwasanaethau iechyd meddwl ymyrraeth gynnar yn parhau'n gyfyngedig iawn i blant a phobl ifanc[71].

h. Yn y cyfamser, mae'r galw am y gwasanaethau hyn yn parhau i gynyddu: gwelwyd cynnydd o 100% yn y galw yng Nghymru yn ystod y pedair blynedd diwethaf, gan arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl ifanc sy'n cael eu cadw ar restrau aros a lefel gynyddol o angen heb ei ddiwallu[72]. Mae tystiolaeth epidemiolegol o Ogledd Iwerddon yn awgrymu y bydd 20% o blant yn datblygu problemau iechyd meddwl sylweddol (RQIA, 2011). Mae darparwyr gwasanaeth ar draws y Parti Gwladol yn sôn am gynnydd yng nghymhlethdod a difrifoldeb problemau ymhlith y plant a'r bobl ifanc sy'n ceisio cefnogaeth.[73]

Argymhelliad

Dylai'r Parti Gwladol a'r gweinyddiaethau datganoledig fuddsoddi'r lefel angenrheidiol o gyllid mewn gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc er mwyn diwallu anghenion plant y mae angen cefnogaeth o'r fath arnynt, gan roi sylw arbennig i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf, gan gynnwys plant anabl, plant a amddifadwyd o ofal rhieni, plant y mae gwrthdaro, trawma, camdriniaeth ac esgeuluso wedi effeithio arnynt, y rhai sy'n byw mewn tlodi a'r rhai sydd mewn gwrthdrawiad â'r gyfraith.

Dylai'r Parti Gwladol fuddsoddi mewn gwasanaethau plant ataliol ac ymyrraeth gynnar cyffredinol, er mwyn atal cynnydd mewn salwch meddwl ymhlith plant.

i. Mae plant ag anghenion iechyd meddwl yn aml yn derbyn gofal mewn lleoliadau nad ydynt yn arbenigol. Er enghraifft, yn yr Alban, mae lefel y derbyniadau i leoliadau anarbenigol ar gyfer cleifion mewnol wedi codi am yr ail flwyddyn yn olynol yn 2013-14 (202 o dderbyniadau oedd yn cynnwys 179 o blant). Roedd 28 o'r derbyniadau i wardiau pediatrig, sy'n dal yn wardiau anarbenigol ar gyfer trin **salwch meddwl. Dim** ond 50% o'r plant oedd â Swyddog Meddygol Preswyl oedd yn seiciatrydd CAMHS.[74]

j. Testun pryder difrifol yw'r defnydd parhaus o wardiau seiciatrig oedolion i blant. Yng Nghymru, er ei bod yn ofynnol rhoi gwybod am achosion o'r fath fel rhai difrifol, mae'r arfer yn anghyson, ac ymddengys bellach bod bwlch rhwng y polisi a'i weithredu.[75] Yn Lloegr, mae ystadegau'r Llywodraeth yn dangos bod nifer o blant

---

[70] http://gov.wales/topics/health/nhswales/healthservice/mental-health-services/strategy/?lang=en
[71] http://www.senedd.assembly.wales/documents/s34408/Report%20November%202014.pdf
[72] Ibid.
[73] FN2, uchod; NSPCC, *Childline Review What's affected children in April 2013-March 2014,* 2014; **http://www.bbc.co.uk/news/uk-scotland-31310407**
[74] Mental Welfare Commission for Scotland, *Young Person monitoring, 2013/14*, 2014.
[75] WAO & HIW (2013) *Child and Adolescent Mental Health Services: Follow-up Review of Safety Issues:* https://www.wao.gov.uk/system/files/publications/CAMHS_English_2013.pdf

â salwch meddwl, y mae angen asesu eu hiechyd meddwl ar frys a rhoi triniaeth briodol i'w hoed iddynt fel cleifion mewnol, bellach yn cael eu rhoi ar wardiau seiciatrig oedolion oherwydd diffyg lle yn y sector plant. Mae hyn yn groes i Gôd Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl 1983 (diwygiwyd yn 2007). Er i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn Lloegr argymell y dylid penodi Rheolwyr Achosion i atal derbyniadau o'r fath, ac i reoli llif gofal cleifion i blant, mae effaith y penodiadau hyn heb ei gwireddu eto. Mae'r mater hwn yn ehangach na rheoli achosion, ac yn dioddef effaith uniongyrchol yn sgîl argaeledd gwelyau, diffyg darpariaeth oed-briodol yn lleol i gleifion mewnol neu ddarpariaeth sy'n ddaearyddol wasgaredig, a chomisiynu rhagweithiol yn hyn o beth.

k. Mae plant â phroblemau iechyd meddwl hefyd yn dal i gael eu cadw'n amhriodol yng nghelloedd yr heddlu, ac yng Ngogledd Iwerddon yn y Ganolfan Cyfiawnder Ieuenctid. Yn Lloegr mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi'n ddiweddar (Mai 2015) y byddai'n anghyfreithlon cadw plant â salwch meddwl yng nghelloedd yr heddlu fel 'man diogel'. Mae angen gwasanaethau cymunedol oed-briodol 24 awr i blant, i ddisodli'r defnydd o gelloedd yr heddlu ar draws y Parti Gwladol. Dylid ystyried yn ofalus y risg bosibl yn sgîl gostyngiad yn y defnydd o gelloedd yr heddlu o safbwynt cynnydd yn y defnydd o wardiau iechyd meddwl oedolion.

Argymhellion

Ni ddylai plant ag anghenion iechyd meddwl gael eu derbyn i wardiau iechyd meddwl oedolion ond mewn amgylchiadau eithriadol. Dylai'r Parti Gwladol a'r llywodraethau datganoledig fod yn cofnodi ac yn monitro'r cyfryw achosion er mwyn nodi'r camau sy'n ofynnol, gan gynnwys lefel briodol o fuddsoddi mewn gwasanaethau cleifion mewnol oed-briodol.

Ni ddylai plant ag anghenion iechyd meddwl gael eu cadw yn y ddalfa gan yr heddlu nac yn y system cyfiawnder ieuenctid cyn eu cyhuddo. Dylai'r Parti Gwladol a'r llywodraethau datganoledig ddeddfu i atal hyn, ac ar yr un pryd dylid rhoi blaenoriaeth i ariannu asesiadau amserol ar frys, a hefyd wasanaethau cymunedol, 24 awr, sy'n oed-briodol i gymryd lle dalfa'r heddlu.

Tlodi Plant

l. Bellach mae 3.7 miliwn o blant yn byw mewn tlodi cymharol yn y Deyrnas Unedig (27%).[76] O dan bolisïau'r llywodraeth gyfredol, rhagwelir y bydd tlodi plant yn codi o 2012/13, ac mae disgwyl y bydd 600,000 yn fwy o blant yn byw mewn tlodi erbyn 2015/16. Mae disgwyl i'r tueddiad hwn ar i fyny barhau, a rhagwelir y bydd 4.7 miliwn o blant yn byw mewn tlodi erbyn 2020.[77] Ym marn y Comisiynwyr Plant, dyma un o'r pryderon mwyaf ym maes hawliau plant ar draws y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd, ac mae angen i lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig roi sylw iddo ar frys.

m. Ar ôl ymrwymo yn 1999 i ddileu tlodi plant ar draws y Deyrnas Unedig, yn 2010 gosododd y Parti Gwladol nifer o dargedau cyfreithiol rwymol i leihau tlodi plant erbyn 2020-1. Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau bod y gyfran o blant oedd mewn aelwydydd ar incwm cymharol isel yn disgyn o dan 10%, a bod y rhai mewn aelwydydd ar incwm isel absoliwt yn is na 5%. Roedd Deddf Tlodi Plant 2010 hefyd yn gofyn bod llywodraeth y Deyrnas Unedig a phob llywodraeth ddatganoledig yn cyhoeddi strategaethau yn amlinellu'r camau gweithredu a fyddai'n cael eu cymryd i gyrraedd y targedau, ac adroddiadau blynyddol ar eu cyflawni, gyda strategaeth y Deyrnas Unedig gyfan yn cyfeirio, yn y cenhedloedd datganoledig, at faterion a neilltuwyd. Fodd bynnag, canfu'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant yn 2014 nad oedd modd cyrraedd y targedau statudol bellach, a'i bod hi'n debygol mai hwn fyddai'r degawd cyntaf ers dechrau cadw cofnodion pan nad oedd tlodi plant absoliwt wedi gostwng.[78] Mae hyn o ganlyniad i weithredu annigonol gan lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig i drechu tlodi plant, yn ogystal â chyflwyno 'diwygiadau lles' sydd, o'u hestyn yn gynyddol, yn cael effaith niweidiol ar deuluoedd incwm isel ar draws y Deyrnas Unedig. Er bod ComPlantCymru yn cydnabod effaith dirwasgiad economaidd a diwygio lles, mae'r effaith ar Gymru wedi bod yn anghymesur, ac yno y ceir y ganran uchaf o blant difreintiedig yn y Deyrnas Unedig[79]. Mae angen ymdrechu'n fwy i sicrhau bod Cymru'n dwysáu ei hymdrechion i drechu tlodi.

n. Mae mwyafrif (61%) o'r plant sy'n tyfu i fyny mewn tlodi yn y Deyrnas Unedig yn byw mewn teulu lle mae o leiaf un rhiant yn gweithio.[80] Mae hyn yn adlewyrchu economi cyflogau isel y Deyrnas Unedig, a'r gwaith ansefydlog a rhan amser, gan gynnwys y cynnydd mewn 'contractau oriau sero', lle mae'n ofynnol i bobl gytuno i weithio ar gyfer un cyflogwr yn unig, heb unrhyw warant y cânt waith o gwbl. Daeth Parti Gwladol y Deyrnas Unedig â deddfwriaeth i rym i ddileu telerau cyflogaeth gyfyngedig mewn contractau oriau sero, ond mae angen rheoliadau pellach i sicrhau bod y darpariaethau deddfwriaethol hyn yn cael eu gweithredu a'u cymhwyso.

o. Er gwaethaf y ffaith bod angen croesawu cyflwyno cinio ysgol am ddim yn ystod tair blynedd cyntaf yr ysgol gynradd yn Lloegr a'r Alban, a brecwast ysgol am ddim yng Nghymru, mae tlodi bwyd yn parhau'n broblem ddifrifol i blant. Mae'r Comisiynwyr

---

[76] Oni nodir fel arall, mae'r adroddiad hwn yn defnyddio mesur Tlodi Cymharol Llywodraeth y Deyrnas Unedig (ar ôl Costau Tai). DWP (2014), Households Below Average Income: An analysis of the income distribution 1994/95 – 2012/13, tt53-54.

[77] IFS, http://www.ifs.org.uk/comms/comm121.pdf

[78] State of the Nation 2014, SMCPC

[79] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/325416/households-below-average-income-1994-1995-2012-2013.pdf

[80] DWP (2014), Households Below Average Income: An analysis of the income distribution 1994/95 – 2012/13

yn pryderu am gwmpas yr hawl a'i gweithrediad. Mae maint dognau cinio ysgol yng Nghymru'n golygu, yn ôl astudiaeth gan ComPlantCymru, mai 38% yn unig o blant oedd yn adrodd eu bod yn teimlo'n llawn yn gyson ar ôl cinio ysgol[81]. Derbyniodd Ymchwiliad diweddar gan yr Holl Bleidiau i Newyn yn y Deyrnas Unedig dystiolaeth ynghylch dibyniaeth gynyddol pobl ar incwm isel ar fanciau bwyd elusennol, a chanfod bod y cynnydd yng nghost tai, bwyd a thanwydd yn cael effaith ar allu aelwydydd i brynu a choginio bwyd.[82] Mae Ymddiriedolaeth Trussell, prif ddarparwr banciau bwyd y Deyrnas Unedig, wedi darparu nifer digyffelyb o becynnau bwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15, dros filiwn, yr oedd tua thraean ohonynt yn mynd i blant. Mae hyn wedi treblu yn ystod y tair blynedd diwethaf.[83]

p. Mae tlodi tanwydd hefyd yn broblem sylweddol i deuluoedd ar incwm isel. Mae bron miliwn o blant mewn teuluoedd sydd â dyledion ynni, a all arwain at gartrefi heb wres a pherygl i'w hiechyd.[84]

q. Mae llywodraethau'r Deyrnas Unedig, Cymru a'r Alban yn cydymffurfio â Deddf Tlodi Plant 2010 o ran cyhoeddi strategaethau a chynlluniau gweithredu (Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yw'r eithriad, gan nad yw wedi cyhoeddi strategaeth ar gyfer 2014-17), gyda phob un ohonynt yn amlinellu ymrwymiadau i drechu tlodi plant, ond bu diffyg cyffredinol o fesurau diriaethol a chamau gweithredu, a hefyd o ran adnoddau i gyflawni ar y raddfa angenrheidiol.

r. Mae Strategaeth Tlodi Plant yr Alban yn canolbwyntio ar faterion datganoledig. Mae'r ddealltwriaeth o dlodi plant a fframwaith canlyniadau a mesuriadau yn y Strategaeth i'w croesawu, ond mae angen cynllun cyflawni clir, yn nodi'r cyfrifoldebau, a'r rolau arweinyddiaeth ac atebolrwydd. Nid oes mecanwaith chwaith i Lywodraeth yr Alban sicrhau bod awdurdodau lleol a phartneriaid yn cyflawni ym maes y strategaeth tlodi plant. Mae hyn yn bwysig, gan nad oes dyletswydd ddeddfwriaethol ar awdurdodau lleol yn yr Alban yng nghyswllt tlodi plant. Mae nifer o fesurau wedi cael eu rhoi ar waith i ymdrin â thlodi plant gan Lywodraeth yr Alban, gan gynnwys (gweler hefyd yr adran Treth a diwygio lles isod): buddsoddi mewn gwasanaethau cyngor a gwybodaeth i gefnogi teuluoedd i gyrchu cymorth ariannol; sicrhau bod cinio ysgol am ddim i blant yn cwmpasu tair blynedd cyntaf yr ysgol gynradd; ymrwymiad i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r bwlch addysg rhwng disgyblion sydd ar incwm isel a'u cyfoedion sydd mewn sefyllfa ariannol well; a chanllawiau ynghylch cymryd tlodi plant i ystyriaeth wrth gynllunio gwasanaethau plant lleol, a phan fydd llesiant yn cael ei drafod o dan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (yr Alban) 2014.

---

[81] http://www.complantcymru.org.uk/uploads/publications/527.pdf

[82] https://foodpovertyinquiry.files.wordpress.com/2014/12/food-poverty-feeding-britain-final.pdf

[83] http://www.trusselltrust.org/resources/documents/Press/Trussell-Trust-foodbank-use-tops-one-million.pdf

[84] www.childrenssociety.org.uk/what-you-can-do/campaign-for-change/show-some-warmth-fuel-debt-and-families

Argymhelliad

Rhaid i lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig wneud tlodi plant yn ffocws allweddol, a hynny ar frys, gan gydymffurfio'n llawn â Deddf Tlodi Plant 2010. Rhaid darparu adnoddau digonol i fynd i'r afael â thlodi plant mewn modd ystyrlon ac atal y cynnydd a ragwelir erbyn 2020. Rhaid asesu effaith pob polisi newydd ar deuluoedd sydd ar incwm isel, a rhoi mesurau ar waith i'w hatal rhag cael effaith niweidiol.

Trethiant a nawdd cymdeithasol

s. Canfu gwaith ymchwil a wnaed i CCE ar effaith gronnol trethiant a mesurau nawdd cymdeithasol yn Lloegr o 2010 tan y Gyllideb yn 2014, yn achos aelwydydd â phlant, mai yn yr aelwydydd yn y degraddau incwm isaf y câi'r colledion cyffredinol mwyaf eu profi fel canran o incwm yr aelwyd (7-9% o'r incwm net), gyda'r colledion lleiaf yn cael eu profi yn y degraddau mwyaf cyfoethog.[85] O edrych yn ôl y math o aelwyd, effaith yr holl fesurau o 2010-2014 oedd mai unig rieni – grŵp sydd eisoes o dan anfantais – yw un o'r grwpiau sydd wedi colli fwyaf fel canran o'r incwm net. Gweler graffiau isod[86] (Saesneg yn unig).



[85] H Reed a D Elson (2014), *An adequate standard of living* (CCE: Llundain)
[86] Ibid.



t. Yn yr un modd, canfu ymchwil i Lywodraeth Cymru fod newidiadau lles wedi cael effaith anghymesur ar blant a theuluoedd – yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed.[87] Rhybuddiodd Asesiad CCE o'r Effaith ar Hawliau Plant yn sgîl y Bil Diwygio Lles, a gwblhawyd cyn iddo ddod i rym yn 2012, fod lefelau budd-dal wedi bod o dan y trothwy tlodi yn gyson ers rhai blynyddoedd (60% o'r canolrif incwm), gan rybuddio am achosion tebygol o dorri hawliau plant o dan Erthyglau 2, 3, 26 a 27 o'r Confensiwn, ymhlith eraill, o ganlyniad i fesurau'r Bil.[88] Yn ddiweddar mae Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig wedi canfod bod un o'r cyfryw fesurau, y 'cap ar fudd-dal' (sy'n cyfyngu ar uchafswm y budd-dal lles y gellir ei dalu i aelwyd, beth bynnag yw ei maint, gan gael effaith anghymesur ar deuluoedd â phlant, yn arbennig rhai sydd â mwy o blant), yn torri Erthygl 3 o'r Confensiwn, yn achos *R (SG and others) v Secretary of State for Work and Pensions* [2015] UKSC 16. Fodd bynnag, ni allai'r Llys gynorthwyo'r hawlwyr oherwydd nad yw'r Confensiwn wedi'i ymgorffori i gyfraith y Deyrnas Unedig. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi cynlluniau'n ddiweddar i ostwng y cap ar fudd-dal i £23,000 y flwyddyn fesul aelwyd.[89]

u. Heblaw am y 'cap ar fudd-dal', bu cryn bryderon hefyd ynghylch y 'dreth ystafell wely' neu'r 'cymhorthdal ystafell sbâr', sy'n golygu bod tenantiaid mewn tai cymdeithasol yn colli rhan o'u budd-dal tai os bydd un ystafell wely neu fwy yn eu

[87] http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/welfare-reform-in-wales/analysing-reforms/?lang=en
[88] **http://www.trusselltrust.org/resources/documents/Press/Trussell-Trust-foodbank-use-tops-one-million.pdf** (bydd rhai o'r defnyddwyr yn defnyddio fwy nag unwaith)
[89] http://www.telegraph.co.uk/news/politics/queens-speech/11632708/Queens-Speech-David-Cameron-says-Britain-a-golden-opportunity-to-back-hard-working-people.html

heiddo'n wag. Hyd yma, nid yw'r mesur hwn wedi cael ei roi ar waith yng Ngogledd Iwerddon, ac mae wedi cael ei liniaru yn yr Alban trwy daliadau tai disgresiynol.[90] Mae sancsiynau budd-dal hefyd wedi arwain at golledion difrifol o incwm aelwydydd teuluoedd sydd eisoes yn byw mewn tlodi.[91]

v. Yng Ngogledd Iwerddon, gan gydnabod yr effaith niweidiol ar blant ac oedolion agored i niwed, bu oedi sylweddol wrth symud ymlaen gyda deddfwriaeth sy'n cyfateb i Ddeddf Diwygio Lles 2012. Y rheswm am hynny yw diffyg cytundeb gwleidyddol a'r ffaith bod y llywodraeth ddatganoledig yn rhannu pŵer. O ganlyniad i'r oedi hwn, mae llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi gorfodi toriadau i gyllideb Gogledd Iwerddon, a hyd yma mae'r Gweinidogion datganoledig yn dal heb ddod i gytundeb ar gyfres o fesurau i gymedroli rhai o effeithiau gwaethaf Diwygio Lles. Bydd cyllideb gwasanaethau cyhoeddus, felly, sydd eisoes wedi'i lleihau yn sgîl caledi, yn dioddef effaith niweidiol bellach o ganlyniad i doriadau ychwanegol.

w. Yn yr Alban bu rhai mentrau i'w croesawu i liniaru rhai o effeithiau newidiadau lles, gan gynnwys: Cronfa Les yr Alban ac amddiffyniad i deuluoedd sy'n wynebu pwysau eithriadol fel grŵp blaenoriaeth i'w cefnogi; a buddsoddiad gan Lywodraeth yr Alban ac awdurdodau lleol yn y cynllun lleihau treth cyngor, gan sicrhau, yn wahanol i weddill y Deyrnas Unedig, nad yw teuluoedd ar incwm isel wedi cael ergyd yn sgîl dileu budd-dal treth y cyngor.

x. Mae'r sefyllfa yn debygol o waethygu yn sgîl y Gyllideb argyfrwng sydd wedi'i chyhoeddi gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer 8 Gorffennaf 2015, sy'n debygol o gynnwys £12 biliwn o doriadau gwariant ar les, y mae'r Comisiynwyr Plant yn disgwyl i lawer ohonynt syrthio i ran teuluoedd â phlant. Er bod y Llywodraeth wedi ymrwymo i ddiogelu pensiynau rhag y toriadau hyn, nid yw wedi gwneud yr un ymrwymiad i ddiogelu budd-daliadau i blant. Yn wir, mae'n debygol mae teuluoedd â phlant fydd yn wynebu mwyafrif y toriadau hyn.

Argymhellion

Dylai hawliau plant i dderbyn nawdd cymdeithasol a chael safon byw ddigonol gael eu cyflawni gan y system les: dylid amddiffyn plant a'u teuluoedd rhag toriadau lles; ac ni ddylai mesurau gamwahaniaethu yn erbyn plant o grwpiau penodol, er enghraifft, plant unig rieni, plant ag anableddau neu blant o deuluoedd mawr.

Ni ddylid defnyddio sancsiynau budd-dal mewn modd sy'n torri ar draws hawliau plant o dan y Confensiwn. Dylai teuluoedd â phlant sy'n wynebu sancsiynau budd-dal gael eu pasbortio'n uniongyrchol i daliadau caledi ar lefel ddigonol i gyflawni eu hawliau i dderbyn nawdd cymdeithasol a safon byw sy'n ddigonol.

[90] Adroddiad Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar yr Hawl i gael Cartref Digonol, 2013
[91] http://www.cpag.org.uk/content/latest-reports-impact-benefit-sanctions

Cartref digonol

y. Yn ei hymweliad â'r Deyrnas Unedig yn 2013, bu Rapporteur arbennig y CU ar yr hawl i gael cartref digonol yn crynhoi effeithiau'r farchnad dai, y ddarpariaeth a newidiadau lles ar deuluoedd incwm is.[92] Mae costau cynyddol rhentu preifat (yn arbennig yn Llundain), buddsoddi annigonol mewn tai cymdeithasol a newidiadau lles wedi arwain at ddefnydd cynyddol o lety gwely a brecwast amhriodol i deuluoedd, o 630 o deuluoedd yn Lloegr ym mis Mawrth 2010 i 2080 ym mis Medi 2014.[93]

z. Yn aml mae awdurdodau lleol yn Lloegr yn amharod i gyflawni eu rhwymedigaethau amddiffyn plant a chefnogaeth tuag at bobl ifanc 16 ac 17 oed, a all gael eu lletya'n amhriodol mewn llety gwely a brecwast, fod heb eu hasesu, neu fod heb dderbyn cynnig o lety o gwbl, er gwaethaf amddiffyniadau cyfreithiol sydd eisoes yn bodoli.[94]

Argymhelliad

Dylai Parti Gwladol y Deyrnas Unedig ymdrin ar frys â'r angen am gartrefi digonol i deuluoedd incwm is a dod â'r defnydd o lety gwely a brecwast amhriodol i ben ar gyfer teuluoedd â phlant.

Dylai Parti Gwladol y Deyrnas Unedig roi arweiniad i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr ynghylch diwallu anghenion pobl ifanc 16 ac 17 oed, y mae ganddynt hawl statudol i dderbyn cefnogaeth.

Plant ag anableddau

aa. Ar draws y Deyrnas Unedig, mae newidiadau i fudd-daliadau lles wedi cael effaith anghymesur ar blant ag anableddau. Mae'r plant hyn eisoes yn llawer mwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi.[95] O ganlyniad i ddiwygiadau treth a budd-dal a gyhoeddwyd yn 2010, mae CCE wedi amlygu bod y camau hyn wedi peri symud yn ôl yng nghyswllt gwireddu hawliau plant anabl. Mae penderfyniadau gwariant y llywodraeth a wnaed ers 2010 wedi cael effaith anghymesur ar blant ag anableddau a'u teuluoedd.[96]

bb. Canfu gwaith CCE oedd yn edrych ar dlodi plant ac anabledd hanesion am deuluoedd â phlant ag anableddau oedd yn methu fforddio gwresogi eu cartrefi'n iawn. Ar ben hynny, canfu'r ymchwil fod rhai plant hŷn ag anableddau oedd yn byw'n annibynnol

[92] http://www.ohchr.org/EN/Issues/Housing/Pages/CountryVisits.aspx

[93] **www.parliament.uk/briefing-papers/sn02110.pdf**

[94] The Children's Society, *Getting the House in Order*, Mawrth 2015.

[95] **http://www.childrenssociety.org.uk/sites/default/files/tcs/4_in_10_reportfinal.pdf**

[96] Child Rights Impact Assessment of the Autumn Statement 2013 and Budget 2014, CCE, 2014.

heb ddigon o fwyd neu'n colli prydau'n rheolaidd, a chlywyd sôn hefyd am blentyn heb ddillad digonol.[97] Roedd plant ag anableddau hefyd yn profi anfantais ariannol o ganlyniad uniongyrchol i'w costau byw uwch. Y rheswm am hynny yw'r gwasanaethau a'r nwyddau cymorth arbenigol sy'n angenrheidiol i gyflawni eu hanghenion. Awgrymodd llawer fod lefelau budd-dal yn annigonol, ac nad ydynt yn talu am y costau hyn.

cc. Mae cyfradd marwoldeb gyffredinol y Deyrnas Unedig yn ystod plentyndod yn uwch nag mewn rhai gwledydd Ewropeaidd eraill. Y meysydd allweddol lle'r ymddengys bod cyfraddau'r Deyrnas Unedig yn gymharol uchel yw marwolaethau babanod a marwolaethau ymhlith plant sydd â chyflyrau cronig.[98]

dd. Amlygodd ymchwil i CCE ar ysgolion arbennig preswyl i blant anabl bwysigrwydd cymorth cynnar, integredig i blant ag anghenion cymhleth a'u teuluoedd, gan eu galluogi i aros o fewn eu teulu a'u cymuned lle bynnag y bo modd, ac i ddymuniadau a buddiannau plant gael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau pwysig ynghylch eu cefnogaeth a'u dyfodol, gan gynnwys ar adeg pontio o'r ysgol. [99] Mae nifer o blant ag anableddau dysgu ac ymddygiad heriol yn dal mewn unedau cleifion mewnol, er gwaethaf yr ymrwymiadau a wnaed wedi Winterbourne View. Mae llawer yn bell o'u cartref a'u teulu, ac mae llawer heb gynllun pontio.

ee. Yn yr Alban, mae'r materion i blant sy'n pontio i oedolaeth ag anghenion cymorth a/neu feddygol ychwanegol yn cynnwys y canlynol: bod plant yn aros yn rhy hir i becynnau priodol o ofal gael eu rhoi ar waith; mae'r rhai y mae disgwyl iddynt fyw'n hwy, yn sgîl datblygiadau meddygol, yn cael bod diffyg gwasanaethau i ddarparu ar eu cyfer; ac mae plant yn teimlo nad yw eu lleisiau'n cael gwrandawiad. Yn aml nid yw'r broses bontio'n cael ei hegluro iddyn nhw mewn modd dealladwy ac mae'r naid i wasanaethau oedolion yn rhy sydyn; mae plant yn cael eu trin mewn mannau amhriodol fel wardiau oedolion oherwydd diffyg darpariaeth gwasanaeth; ac nid yw'r cynllunio ar gyfer pontio'n cychwyn yn ddigon cynnar. Amlygodd astudiaeth ddiweddar gan ComPlantCymru o'r ddarpariaeth egwyliau byr i blant anabl a'u rhieni/gofalwyr (Bywydau Llawn, 2014) yr anawsterau sy'n codi pan nad yw gwasanaethau cyffredinol yn hygyrch i blant anabl, a'r angen am bontio di-fwlch i wasanaethau oedolion. Ar ôl cyhoeddi adolygiad o'r pontio gan bobl ifanc i wasanaethau oedolion yn 2012,[100] mae NICCY wedi galw am osod dyletswyddau cadarnach ar y llywodraeth ac asiantaethau statudol er mwyn sicrhau bod plant ag anableddau dysgu yn cael mynediad i un broses gynllunio integredig, sy'n rhoi'r plentyn yn y canol wrth bontio, sy'n gofyn bod asiantaethau statudol yn cydweithio, ac sy'n rhoi sylw priodol i farn plant.

ff. Ym mis Tachwedd 2014 yn *Bywydau Llawn: Mynediad Cyfartal?,* amlygodd ComPlantCymru bryder nad yw ysgolion o dan yr un dyletswyddau ag adeiladau

---

[97] Larkins C, Thomas N, Judd D, et al. (2013) ''We Want to Help People See Things Our Way'': A Rights-Based Analysis of Disabled Children's Experience Living with Low Income. Llundain, y Deyrnas Unedig: Swyddfa'r Comisiynydd Plant

[98] **http://www.ncb.org.uk/media/1130496/rcpch_ncb_may_2014_-_why_children_die__part_a.pdf**

[99] E Pellicano et al, *My life at school* (CCE, 2014).

[100] Lundy L, Byrne B a McKeown P. (2012) Review of transitions to Adult Services for Young People with Learning Disabilities. Belfast: NICCY.

cyhoeddus eraill o ran y gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau bod eu hadeiladau'n hygyrch yn gorfforol, a datgelodd yr adroddiad elfennau annigonol yn y system gyfredol ar gyfer cynyddu mynediad i'r ysgol ar gyfer disgyblion anabl.

Argymhellion

Dylai'r Parti Gwladol sicrhau y telir am gostau ychwanegol anabledd drwy ddarpariaeth les i blant ag anableddau.

Dylai'r Parti Gwladol sicrhau bod y cynllunio ar gyfer pontio i wasanaethau oedolion yn dechrau'n gynnar, ac yn cydymffurfio ag Erthyglau 3, 12 a 23 o'r Confensiwn.

Dylai'r Parti Gwladol newid Deddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau bod ysgolion o dan yr un ddyletswydd i sicrhau mynediad i bobl ag anableddau ag adeiladau cyhoeddus eraill.

9. Addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol (erthyglau 28, 29, 30 a 31)

Gwaharddiadau o'r ysgol

a. Canfu ymchwiliad CCE i waharddiadau o'r ysgol fod 5,730 o blant wedi'u gwahardd yn barhaol yn 2009-10 o ysgolion a ariannwyd gan y wladwriaeth yn Lloegr (0.08 y cant o'r boblogaeth ysgolion). Yn 2009-10, fodd bynnag, roedd 179,800 o blant (2.4 y cant o'r boblogaeth ysgolion) wedi'u gwahardd am gyfnod penodol o leiaf unwaith. Roedd bron yr holl waharddiadau cyfnod penodol (97 y cant) am gyfnodau o lai nag wythnos. Mae canllawiau newydd ar waharddiadau yn Lloegr (Tachwedd 2013) a oedd yn gostwng y trothwy ar gyfer gwaharddiadau wedi cael eu tynnu'n ôl wedi her gyfreithiol. Mae adolygiad ar waith. [101]

b. Amlygodd Ymchwiliad CCE i Waharddiadau o'r Ysgol (2010-2012) waharddiadau anghymesur (parhaol ac am gyfnod penodol) plant o rai grwpiau demograffig o'r ysgol: yn arbennig plant o gefndir Sipsiwn a Theithwyr Roma, Teithwyr Gwyddelig, Du Caribïaidd, plant Cymysg Gwyn/Du Caribïaidd; bechgyn; plant o deuluoedd incwm isel (sy'n derbyn prydau ysgol am ddim) a phlant ag anghenion addysgol arbennig. Er enghraifft, roedd bechgyn Du Caribïaidd 11 gwaith yn fwy tebygol na merched Gwyn o'r un oed mewn ysgolion tebyg i gael eu gwahardd yn barhaol.[102] Yn ogystal â'r defnydd anghymesur o waharddiadau yn erbyn plant o grwpiau penodol, rydym hefyd yn pryderu am arferion gwahardd anghyfreithlon sy'n effeithio ar leiafrif bach ond pwysig o ysgolion.[103]

[101] http://www.justforkidslaw.org/news-events/press-coverage/just-for-kids-law-welcomes-withdrawal-of-department-for-education-guidance-making-it-easier-for-schools-to-permanently-exclude-pupils-2
[102] They go the extra mile: reducing inequality in school exclusions (2013), t26.
[103] Always someone else's problem: year 2 report of inquiry into school exclusions, CCE 2012.

c. Yn Lloegr nid oes hawl o gwbl i apelio yn erbyn gwaharddiadau cyfnod penodol, nac unrhyw broses apêl annibynnol rwymol ar gyfer gwaharddiadau parhaol, ac eithrio yn achos plant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd, trwy'r tribiwnlys SEND. Gall rhieni (nid plant) ofyn am adolygiad annibynnol o waharddiad parhaol, ond ni all panel yr adolygiad fynnu bod y plentyn yn cael ei (d)derbyn yn ôl. Nid yw adroddiad y Parti Gwladol yn gwneud hynny'n eglur.

d. Yn yr Alban yn 2012/13 roedd 21,955 achos o wahardd o ysgolion awdurdodau lleol, gostyngiad o 18 y cant ers 2010/11 (26,844 o waharddiadau).[104] Mae'r canllawiau[105] ('Included, Engaged and Involved, Part 2') yn nodi'n eglur nad oes y fath beth â gwaharddiad 'anffurfiol' cyfreithlon, ond mae'r rhain yn dal i ddigwydd. Ymhellach, er bod y ffigurau swyddogol ar gyfer gwaharddiadau wedi bod yn gostwng yn sylweddol ers 2006-07, maent wedi codi mewn rhai ysgolion arbennig[106] ac mae anghysondebau aruthrol o ran gwahardd plant: mae plant sy'n derbyn gofal a rhai sydd ag anghenion cymorth ychwanegol nifer o weithiau'n fwy tebygol o gael eu gwahardd[107].

e. Yng Nghymru, mae cyfradd y gwaharddiadau parhaol o'r ysgol wedi bod yn gostwng yn gyson ers 2004. Mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o'r ysgol wedi parhau'n gyson, er bod Cymru wedi gweld gostyngiad yn ystod 2012-13[108]. Ym mis Ebrill 2015, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau newydd, 'Gwahardd o unedau cyfeirio disgyblion ysgol'[109]. Er nad yw'r canllawiau'n rhoi i blant a'r rhai sy'n gofalu amdanynt hawl i apêl annibynnol yn erbyn gwaharddiad cyfnod penodol, mae yn gwneud hynny yn achos gwaharddiadau parhaol.

f. Yng Ngogledd Iwerddon, mae NICCY yn pryderu ynghylch y defnydd o 'waharddiadau anffurfiol' i reoli plant sydd â diagnosis o Anhwylderau Sbectrwm Awtistig neu Anhwylder Gorfywiogrwydd Diffyg Canolbwyntio neu broblemau ymddygiad y tu allan i'r ysgol, trwy ofyn i'w rhiant neu eu gofalwr fynd â nhw adref o'r ysgol yn gynnar, a dod â nhw nôl drannoeth. Yn gyffredinol nid yw'r gwaharddiadau hyn yn cael eu nodi fel gwaharddiad yng nghofnod y plentyn, ac nid ydynt yn dilyn y gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer ataliadau.

---

[104] http://www.gov.scot/Resource/0044/00443414.pdf

[105] Llywodraeth yr Alban (2011), *Included, Engaged and Involved, Part 2: A Positive Approach to Managing School Exclusions*.

[106] Senedd yr Alban, *Official Report, Justice Committee*, 11 Rhagfyr 2012, Col. 2201.

[107] Gweler y crynodeb yn SCCYP (2012), *Connection between school exclusions and offending, Written submission from Scotland's Commissioner for Children and Young People*, Senedd yr Alban, Pwyllgor Cyfiawnder.

[108] http://gov.wales/docs/statistics/2014/140305-exclusions-schools-2012-13-revised-en.pdf

[109] http://gov.wales/docs/dcells/publications/150423-exclusion-guide-en.pdf

Argymhellion

Dylai'r Parti Gwladol wneud y canlynol:

Defnyddio gwaharddiad parhaol neu dros dro fel mesur disgyblu dim ond pan fydd popeth arall wedi methu, a sicrhau nad yw gwaharddiadau 'anffurfiol' ac anghyfreithlon yn digwydd.
Dylid defnyddio cyfryngu, cyfiawnder adferol a mewnbwn gan weithwyr proffesiynol, gan gynnwys seicolegwyr addysg a gweithwyr cymdeithasol, i leihau nifer y gwaharddiadau.

Sicrhau bod plant sy'n gallu mynegi eu barn yn cael yr hawl i apelio, gyda chyngor a chymorth cyfreithiol, a lle caiff cynrychiolaeth briodol ei darparu ar gyfer y rhai heb fodd, yn erbyn eu gwaharddiad, yn ogystal â'r hawl, yn arbennig ar gyfer y rhai sydd mewn gofal amgen, i apelio at dribiwnlysoedd anghenion addysgol arbennig.

Sicrhau bod darpariaeth addysgol amgen ar gyfer disgyblion a waharddwyd yn cychwyn yn brydlon wedi'r gwaharddiad, a'i bod o ansawdd uchel.

Addysg wedi'i harwahanu a dethol academaidd

g. Yn Sylwadau Terfynol 2008, argymhelliad Pwyllgor y CU oedd bod y Parti Gwladol yn rhoi mesurau ar waith i ymdrin ag arwahanu addysg yng Ngogledd Iwerddon ac i ddileu dethol academaidd, h.y. y prawf trosglwyddo 11+ a sicrhau bod pob plentyn yn cael eu cynnwys yn y trefniadau derbyn i ysgolion wedi'r cynradd. Yn 2015, mae mwyafrif y disgyblion yn dal i fynychu ysgolion y bernir eu bod yn y sector 'reoledig' Brotestannaidd neu'r sector Gatholig 'a gynhelir'. Dim ond 7% o'r disgyblion sy'n mynychu ysgolion integredig.[110] Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Adran Addysg wedi canolbwyntio ar hybu addysg a rennir, sy'n golygu bod disgyblion yn parhau i fynychu eu hysgolion eu hunain, ond yn cael cyfle i gyfranogi mewn dosbarthiadau a gweithgareddau ar y cyd â disgyblion o fathau eraill o ysgolion. Yn ddiweddar, lansiodd yr Adran fil addysg a rennir sy'n ceisio darparu diffiniad statudol o addysg a rennir a phŵer i annog a hwyluso addysg a rennir[111]. Ymhellach, mae cryn gyllid wedi cael ei ddarparu i ddatblygu campysau newydd ar gyfer addysg a rennir.

[110] http://www.deni.gov.uk/index/85-schools/10-types_of_school-nischools_pg/16-schools-integratedschools_pg.htm
[111] DE (2014) *Sharing Works: A* Policy *for* Shared Education. *Bangor: DE*

h. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch ansawdd rhai mentrau addysg a rennir, y cyfle i bob disgybl chwarae rhan, a chynaliadwyedd addysg a rennir. Yn y pen draw, er y gall addysg a rennir hwyluso mwy o gydweithredu rhwng ysgolion, mae mwyafrif llethol disgyblion Gogledd Iwerddon yn parhau i fynychu ysgolion 'ar wahân'.

Argymhelliad

Dylai Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon fynd ati i gefnogi, hybu a datblygu system addysg gwbl integredig. Dylai'r ddarpariaeth addysg a rennir gael ei monitro a'i gwerthuso'n ofalus i sicrhau ei bod yn cael ei chyflwyno'n briodol a'i bod yn cyflawni ei hamcanion. Dylai ymgysylltiad uniongyrchol â phlant fod yn elfen annatod o'r gwerthusiad hwn.

i. Mae dau draean o'r disgyblion 10 ac 11 oed yng Ngogledd Iwerddon yn dal i sefyll math o brofion trosglwyddo a fydd yn pennu i ba ysgol y byddant yn mynd wedi'r cynradd. Mae dau brawf gwahanol yn cael eu defnyddio: un a ddefnyddir yn bennaf gan ysgolion gramadeg 'Catholig' ac ail un sy'n cael ei defnyddio gan ysgolion gramadeg y wladwriaeth (anenwadol). Er gwaethaf gwrthwynebiad yr Adran Addysg i'r profion, nid ymddengys bod unrhyw gynlluniau i ddod â'r defnydd ohonynt i ben, er bod rhai ysgolion gramadeg Catholig wedi nodi yn ystod y 12 mis diwethaf na fyddant bellach yn defnyddio dethol academaidd fel rhan o'u meini prawf derbyn.

Argymhelliad

Rhaid i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon ddod â'r defnydd o ddethol academaidd i ben a'i ddisodli â system sy'n dileu anghydraddoldebau addysgol. Ni ellir cyflawni'r cyfryw system ond ag ymgysylltiad llawn y gymdeithas gyfan, yn arbennig plant a'u rhieni.

Bwlio (gan gynnwys seiberfwlio)

j. Mae bwlio yn y ddarpariaeth addysg yn dal yn broblem ddifrifol, eang, ar draws y Parti Gwladol, ac mae'n amharu ar ymgysylltiad llwyddiannus plant â dysgu. Canfu ymchwil a gomisiynwyd gan ComPlantCymru yn 2013 fod bwlio ar sail hunaniaeth rhywedd, rhywioldeb a chydymffurfio â rôl yn dal yn fwrn ar fywydau plant. Cyhoeddodd ComPlantCymru hefyd ymchwil a ganfu fod llawer o'r plant oedd yn derbyn addysg mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion yno oherwydd eu bod wedi methu ymdopi â bwlio mewn addysg brif ffrwd, ac wedi methu â chael mynediad i gefnogaeth. Amlygodd adroddiad *Life in Scotland for LGBT Young People*[112] fod camwahaniaethu ac aflonyddu yn dal yn broblem sylweddol i blant LGBT, yn enwedig

[112] LGBT Youth Scotland (2012), *Life in Scotland for LGBT Young People: Education Report.*

mewn ysgolion, e.e. roedd tua 70% o'r disgyblion LGBT wedi profi bwlio homoffobig yn yr ysgol, ac roedd profiadau plant trawsrywiol yn waeth fyth.

k. Ers archwiliad diwethaf y Deyrnas Unedig gan y Pwyllgor, nodwyd bod seiberfwlio yn fater hawliau plant pwysig sy'n dod i'r amlwg. Mae e-ddiogelwch yn cael ei hyrwyddo gan amrywiaeth o elusennau ac asiantaethau sydd wedi nodi ei fod yn hanfodol;[113] mae'r adroddiadau yn y cyfryngau ynghylch achosion o seiberfwlio wedi cynyddu;[114] amlygodd Ymchwiliad Cyhoeddus Annibynnol Gogledd Iwerddon ar CSE y risg gynyddol i blant anabl ar-lein, yn enwedig risg bwlio;[115] a nodwyd bod paratoi rhywiol a radicaleiddio ar-lein yn bryderon.[116]

l. Mae arolygon yn adrodd am lefelau uchel o seiberfwlio a brofwyd gan blant yn y Deyrnas Unedig. Canfu arolwg yng Ngogledd Iwerddon yn 2011 fod 15.5% o'r disgyblion ym Mlwyddyn 6 ac 17% o'r disgyblion ym Mlwyddyn 9 wedi profi seiberfwlio yn ystod y ddau fis diwethaf. [117] Canfu arolwg o fwy na 2,000 o bobl ifanc yn eu harddegau o'r Deyrnas Unedig, yn 2013, fod [118] 37% o blant yn profi seiberfwlio yn aml iawn; roedd seiberfwlio wedi cael effeithiau trychinebus ar hunan-barch a bywydau cymdeithasol hyd at 70%; ac mae 7 o bob 10 plentyn yn dioddef seiberfwlio.

m. Yn 2008, cyflwynodd Cymru wersi defnydd diogel a chyfrifol o'r rhyngrwyd i'r cwricwlwm ysgol cynradd ac uwchradd. Mae hefyd barth e-ddiogelwch i ddisgyblion, plant a rhieni ar HWB – llwyfan dysgu digidol Cymru.[119] Fodd bynnag, dim ond 40% o'r plant sy'n adrodd eu bod yn cael gwersi ar lwyfannau mwy newydd fel Snapchat, Instagram, Kik a Twitter, sydd wedi cael eu mabwysiadu gan fwy na hanner yr holl blant.[120]

n. Mae Grŵp Llywio Gwrthfwlio'r Alban, y mae SCCYP yn aelod ohono, o'r farn bod yr agweddau a'r ymddygiad sy'n nodweddu bwlio ar-lein yn y bôn yn union yr un fath â mathau eraill o fwlio. Er bod bwlio ar-lein yn gallu cyrraedd a threiddio i'r fath raddau nes achosi heriau penodol, mae angen sicrhau'r un ffocws ar yr effaith ar y plentyn a dulliau ataliaeth tebyg i fynd i'r afael ag ef.[121]

o. Yn ddiweddar cyflwynodd yr Adran Addysg yng Ngogledd Iwerddon (DE) ymgynghoriad sy'n ceisio ymdrin â bwlio mewn ysgolion trwy gyflwyno deddfwriaeth a fydd, ymhlith

---

[113] **http://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-abuse-and-neglect/bullying-and-cyberbullying/**
[114] **http://www.bbc.co.uk/news/uk-northern-ireland-26864342**
[115] **http://www.dhsspsni.gov.uk/csereport181114.pdf**
[116] **http://www.barnardos.org.uk/13932_not_a_world_away_full_report.pdf**
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/97976/prevent-strategy-review.pdf
[117] **http://www.deni.gov.uk/no_56_appendices_final_2011.pdf**
[118]Liam Hackett (2013) – Arolwg Bwlio Blynyddol lle casglwyd gwybodaeth gan fwy na 2,000 o bobl ifanc o Brydain oedd yn eu harddegau.

[119] **http://hwb.wales.gov.uk/pages/eSafety-Index**

[120] Seiliwyd ar arolwg o 2081 o bobl ifanc 13 a 14 oed yng Nghymru (*Sangeet Bhullar, Ellen Helsper, Gareth Loudon, Richard Linnington, Serena Davies a Huw Davies. Generation 2000: The Internet and Digital Media Habits of Year 9 Pupils (13 and 14 year olds) in Wales. Prosiect WISE KIDS, a ariannwyd ar y cyd gan Gomisiynydd Plant Cymru, Logicalis ac S4C*).
[121] Grŵp Llywio Gwrthfwlio'r Alban 2010, *A national approach to anti-bullying for Scotland's children and young people*, Caeredin: Llywodraeth yr Alban

pethau eraill, yn darparu diffiniad cyfreithiol o fwlio. Bydd hyn yn cwmpasu pob math ar seiberfwlio rhwng disgyblion sy'n digwydd pan fyddant dan ofal, rheolaeth neu awdurdod cyfreithlon yr ysgol. Er bod hwn yn gam cadarnhaol, mae heriau'n parhau o ran canfod achosion, annog disgyblion i roi gwybod amdanynt, a phenderfynu'n union pwy sydd â'r cyfrifoldeb o ran ymyrraeth. Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi sefydlu Fforwm E-Ddiogelwch, gyda'r nod allweddol o gadw plant yn ddiogel yn y 'byd digidol'. Serch hynny, nid yw wedi rhoi strategaeth e-ddiogelwch draws-adrannol ar waith eto.

Argymhellion

Dylai Parti Gwladol y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig ddwysáu eu hymdrechion i fynd i'r afael â bwlio a thrais mewn ysgolion, gan gynnwys trwy addysgu hawliau dynol, heddwch a goddefgarwch, a chryfhau cyfranogiad plant ym mhob mater sy'n ymwneud â'r ysgol, y dosbarth a dysgu sy'n effeithio arnynt.
Dylai Parti Gwladol y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig sicrhau bod cymhwysedd digidol a diogelwch ar-lein yn cael eu hategu ar draws y cwricwlwm ysgol cyfan.

Addysg hawliau dynol

p. Er gwaethaf nifer o alwadau gan ComPlantCymru am sicrhau ffocws canolog ar lesiant plant trwy ddatblygu cwricwlwm seiliedig ar hawliau mewn ysgolion, nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi dull o'r fath ar waith eto. Er bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn pecynnau hyfforddi ac adnoddau i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP ymhlith gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, nid oes fawr ddim tystiolaeth i awgrymu bod dull systematig wedi'i ddefnyddio i gynyddu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP ymhlith gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant. Mae problemau tebyg yn bodoli yng Ngogledd Iwerddon a Lloegr.

Argymhelliad

Dylai'r Parti Gwladol a'r llywodraethau datganoledig ddwysáu eu hymdrechion i sicrhau bod pob ysgol yn cynnwys y Confensiwn yn eu cwricwlwm (gan gynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, trwy ei gynnwys mewn cwricwla statudol), a sicrhau bod ei egwyddorion a'i werthoedd yn cael eu hintegreiddio i strwythurau ac arferion pob ysgol.

Addysg perthnasoedd a rhywioldeb

q. Dylai plant dderbyn yr wybodaeth a'r sgiliau i'w hamddiffyn eu hunain rhag cam-drin ac ecsbloetio rhywiol, ac i gynnal datblygiad perthnasoedd rhywiol iach wrth iddynt dyfu'n oedolion. Mae'n bosibl na fydd gan blant iau eiriau i ddisgrifio camdriniaeth, ac na fyddant chwaith yn deall bod cam-drin rhywiol yn beth drwg. Mae addysg perthnasoedd a rhywioldeb yn ddull effeithiol o feithrin gwydnwch plant a phobl ifanc, gan sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth i ddeall ecsbloetio a gwybod sut mae cyrchu help a chyngor. Mae hefyd yn bwysig o ran helpu plant i ddeall eu tueddfryd rhywiol eu hun ac eraill, ac i ymdrin â chamwahaniaethu a bwlio yn erbyn plant LGBT. Er gwaethaf hyn, ar draws y Deyrnas Unedig, nid oes rhwymedigaeth ar ysgolion i ddarparu addysg ar berthnasoedd a rhywioldeb. Roedd ymchwil gan ComPlantCymru yn argymell bod rhaid cael i ddatblygiadau yng nghyswllt gwella dysgu ac addysgu yn y dosbarth, cryfhau arweinyddiaeth ysgol, trefnu gwella ysgolion a hybu arfer gorau gynnwys ffocws clir ar fesurau i gynnal llesiant disgyblion, hawliau plant, materion cydraddoldeb ac amrywiaeth a iechyd a llesiant rhywiol.[122]

Argymhelliad

Rhaid i addysg perthnasoedd a rhywioldeb gael ei darparu gan ymarferwyr sydd wedi'u hyfforddi ym mhob lleoliad addysg i bob plentyn, gan ddefnyddio cwricwlwm safonol. Rhaid i hyn fod yn rhan o ddull cyfannol/ysgol gyfan sy'n cynnwys diogelwch ar y rhyngrwyd, camdriniaeth o fewn y teulu, pob math ar fwlio ac aflonyddu, amddiffyn plant a sicrhau a rhoi caniatâd.

10. Mesurau amddiffyn arbennig (erthyglau 22, 30, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40)

Cyfiawnder ieuenctid

a. Mae oed isaf cyfrifoldeb troseddol (MACR) yn dal yn isel iawn ar draws y Deyrnas Unedig, er gwaethaf argymhellion y Pwyllgor yn ei Sylwadau Terfynol yn 1995, 2002 a 2008, a'r gosodiad yn Sylw Cyffredinol Rhif 10 (paragraff 32). Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon mae'r MACR heb newid o 10, yn yr Alban mae'n dal yn 8, er gwaethaf cam cadarnhaol ymlaen yn 2010, pan basiwyd deddfwriaeth sy'n golygu bod erlyn plentyn o dan 12 yn anghymwys[123]. Mae oed isel y MACR yn achos o dorri Erthyglau 37 a 40 CCUHP gan ei fod yn peri i blant ddod i gysylltiad â system sy'n amhriodol i'w hoed a'u datblygiad.

[122] http://www.childcom.org.uk/uploads/publications/411.pdf
[123] Deddf Cyfiawnder Troseddol a Thrwyddedu (yr Alban) 2010, a. 52.

Argymhelliad

Dylai'r Parti Gwladol fynd ati ar frys i weithredu argymhelliad y Pwyllgor yn 2008 ei fod yn 'codi oed isaf cyfrifoldeb troseddol yn unol â sylw cyffredinol rhif 10 y Pwyllgor, yn fwyaf nodedig paragraffau 32 a 33';

b. Er bod mwyafrif yr achosion troseddol yn erbyn plant yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cael eu clywed yn y llys ieuenctid, mae plant yn dal i gael eu profi yn Llysoedd y Goron (llysoedd oedolion) am droseddau difrifol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn yr Alban, mae plant o dan 16 oed sy'n troseddu yn mynd i'r system Gwrandawiadau Plant (gyda nifer bach iawn, sy'n lleihau, o eithriadau yn y grŵp oedran 12-15), ond mae plant 16 ac 17 oed nad ydynt eisoes yn rhan o'r system yn cael eu profi fel mater o drefn yn y llysoedd oedolion. Mae hyn yn codi pryderon ynghylch gallu plant i gyfranogi'n effeithiol yn yr achos,[124] yn arbennig yng ngoleuni amlygrwydd hysbys niwro-anabledd ymhlith plant yn y ddalfa, ac mae'n groes i Erthygl 40 o'r Confensiwn a Sylw Cyffredinol Rhif 10. Bu gostyngiad sydyn yn nifer y plant sy'n mynd i system gwrandawiadau plant yr Alban neu'r llysoedd yn sgîl troseddu (o 11,554 yn 2008/09 i 2,764 yn 2013/14),[125] ac mae nifer y bobl ifanc a gafwyd yn euog gan y llysoedd yn parhau i ostwng yn gynt na'r holl grwpiau oedran eraill.

Argymhelliad

Dylai plant sydd mewn gwrthdrawiad â'r gyfraith dderbyn sylw yn y system cyfiawnder ieuenctid bob amser, ac ni ddylid byth eu profi fel oedolion mewn llysoedd arferol, pa mor ddifrifol bynnag yw'r drosedd y maent wedi'i chyhuddo ohoni.

c. Yn aml nid yw plant yng Nghymru a Lloegr yn mwynhau eu hawl i breifatrwydd ym mhob cyfnod o'r broses droseddol. Mewn Llys oedolion (Llys y Goron), nid yw gorchymyn ar gyfer cyfyngiadau adrodd ar gael ond ar gais, yn ôl disgresiwn y barnwr, ac hyd yn oed wedyn, dim ond nes i'r plentyn gyrraedd 18 oed;[126] yn y Llys Ieuenctid rhagdybir preifatrwydd, ond gall y llys godi'r gorchymyn hwn.[127] Cafwyd eglurhad ar y sefyllfa hon yn dilyn dyfarniad y Llys Apêl yn *JC and RT v Central Criminal Court* [2014] EWCA Civ 1777; gwrthodwyd galwadau i gadw'r posibilrwydd o gyfyngiadau adrodd gydol oes yn Llys y Goron gan y Llywodraeth, er eu bod yn dal yn bosibl ar gyfer dioddefwyr a thystion sy'n blant. Yn yr un modd, yng Ngogledd Iwerddon, mae mecanwaith statudol yn bodoli sy'n golygu bod modd codi 'cyfyngiadau adrodd', gan ganiatáu adnabod troseddwyr sy'n blant, lle bo barnwr yn penderfynu bod hynny "er lles cyfiawnder" neu "er lles y cyhoedd". Gwnaed ceisiadau am ddileu cyfyngiadau adrodd mewn achosion 'proffil uchel' lle cyflawnwyd trosedd ddifrifol.[128] Mae ddiffyg preifatrwydd i blant yn y system cyfiawnder troseddol mewn achosion sy'n arbennig o enwog yn arwain at ganlyniadau

[124] Gweler cyfreitheg Llys Ewropeaidd Hawliau Dynol yn T v UK; V v UK ([dyfyniad]) ac SC v UK ([ ]).
[125] http://www.scra.gov.uk/cms_resources/Annual%20Dashboard%202013-14.swf.
[126] Adran 45 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999.
[127] Adran 49 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933.
[128] *The Queen v. Ryan McGreechan, 2014 NICA 5.*

arbennig o ddifrifol o ran diogelwch, trefniadau carcharu ac ailsefydlu'r plant dan sylw, ac felly o ran eu hawliau o dan Erthyglau 37 a 40 o'r Confensiwn.[129]

d. Yn y Deyrnas Unedig mae'n rhaid datgelu cofnodion troseddol, gan gynnwys euogfarnau sydd wedi darfod a gwarediadau dargyfeiriol, gan gynnwys y rhai a weinyddwyd i droseddwyr ifanc, ar gyfer cyflogaeth, gwirfoddoli ac ati. Yng Ngogledd Iwerddon yn 2014 rhoddwyd system hidlo ar waith, a fyddai'n golygu nad oedd rhaid datgelu rhai euogfarnau a gwarediadau. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun hwn yn ymdrin yn llawn â'r pryderon ynghylch nifer yr eithriadau i'r cynllun, megis euogfarn sy'n arwain at ddedfryd o garchar neu euogfarn neu warediad dargyfeiriol am 'drosedd benodedig'. Mae'r rhestr o droseddau penodedig bron â chyrraedd 1200. Yn yr Alban, mae diwygiadau i'r system Datgelu euogfarnau a gafwyd gan blant trwy'r system gwrandawiadau plant, y cytunwyd arnynt yn 2011, wedi bod yn destun oedi am gryn gyfnod. Unwaith y daw i rym, bydd hyn yn cyfyngu ar ddatgelu'r cyfryw 'euogfarnau'. Er nad yw'r mesur hwn yn mynd yn ddigon pell, mae i'w groesawu. Mae'r safbwynt hwn yn groes i argymhelliad y Pwyllgor yn Sylw Cyffredinol Rhif 10, Rheolau Hafana, a'r Adolygiad Cyfiawnder Ieuenctid.

Argymhelliad

Dylai fod gan blant sydd mewn cysylltiad â'r gyfundrefn gosbi hawl i breifatrwydd ym mhob cyfnod o'r broses droseddol, gan gynnwys ar ôl eu cael yn euog a'u dedfrydu.

Rhaid peidio â chyfyngu ar gyfleoedd plant mewn bywyd trwy ofynion i ddatgelu euogfarnau am gyfnodau hir, ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol lle bo hynny'n gwbl angenrheidiol i amddiffyn y cyhoedd. Dylid caniatáu i bobl ifanc wneud cais am glirio'u cofnod troseddol ar eu pen-blwydd yn 18 oed, a dylid caniatáu hynny, ac eithrio lle asesir bod peidio â gwneud hynny er eu lles pennaf hwy neu er lles pennaf y cyhoedd.

e. Mae nifer y plant sydd yn y ddalfa gyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr (h.y. wedi'u dedfrydu neu ar remand) wedi gostwng yn sylweddol ers adolygiad cyfnodol diwethaf y Deyrnas Unedig, ac er gwaethaf cynnydd bach yn ddiweddar, mae yn awr yn 981 (Adroddiad misol ar y ddalfa, Ionawr 2015, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid); yn yr Alban mae'r ffigur yn uwch na 65[130] ac yng Ngogledd Iwerddon mae'n 196 (2013-14). Mae ffigur y Deyrnas Unedig yn dal yn uchel iawn o'i gymharu â gweddill Gorllewin Ewrop ([]). Yn yr Alban, gwaharddwyd cadw plant o dan 16 y barnwyd eu bod yn 'afreolus' mewn carcharau neu Sefydliadau Troseddwyr Ifanc gan Senedd yr Alban yn 2010[131], ac mae hynny i'w groesawu.

---

[129] Gweler er enghraifft achos *R v William Cornick*[2014] EWHC 3623 (QB), ynghylch bachgen 16 oed a gafwyd yn euog o lofruddio ei athro ysgol.

[130] Gwasanaeth Carcharau'r Alban, Poblogaeth Ddyddiol y Carcharau, 17 Mai 2015. Ar 19 Mai 2015, roedd 83 o blant ychwanegol mewn llety caeth, yr oedd 7 ohonynt wedi'u dedfrydu i'w cadw yno gan y llysoedd; mae'n debygol bod y gyfran o'r boblogaeth gaeth oedd yn weddill wedi mynd i lety caeth am resymau cysylltiedig â throseddu, megis remand neu drwy awdurdodiad gwrandawiad plant.

[131] Deddf Cyfiawnder Troseddol a Thrwyddedu (yr Alban) 2010, a.

f. Mae nifer anghymesur o blant Du ac o Leiafrifoedd Ethnig yn y ddalfa yng Nghymru a Lloegr, 38% o'r cyfanswm cyfredol. Mae hefyd nifer anghymesur o blant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal (plant sydd neu a fu yng ngofal y Wladwriaeth) yn y ddalfa: mae llai nag 1% o'r holl blant yn Lloegr mewn gofal, ond yn 2012 plant oedd yn derbyn gofal oedd 30% o'r bechgyn a 44% o'r merched oedd yn y ddalfa (ystadegau HMIP, 2012). Yng Ngogledd Iwerddon mae nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) a dderbyniwyd i'r Ganolfan Gyfiawnder Ieuenctid wedi codi 114%, o 146 yn 2011 i 313 yn 2013. Canfu ymchwil a wnaed i CCE yn 2012 hefyd fod lefelau uchel o niwro-anabledd ymhlith plant oedd yn y ddalfa.[132]

g. Er gwaethaf y gostyngiad cyffredinol yn y niferoedd sydd yn y ddalfa ers yr Adolygiad Cyfnodol diwethaf, mae'n dal yn wir nad yw'r ddalfa bob amser yn cael ei defnyddio ar ôl i bopeth arall fethu ac am y cyfnod byrraf o amser sy'n briodol. Er enghraifft, mae dedfrydau rhagdybiaethol o garchar wedi cael eu cyflwyno yn 2014 am droseddau cyllyll gan blant 16 ac 17 oed yng Nghymru a Lloegr.[133] Mae Adolygiad Cyfiawnder Ieuenctid Gogledd Iwerddon wedi amlygu'r angen am ystod o fesurau a/neu lety amgen yn lle cyfnod yn y ddalfa. Yng Ngogledd Iwerddon bu cynnydd parhaus yn yr achosion o gadw plant yn gaeth naill ai fel 'man diogel' neu ar remand, ac ar unrhyw adeg benodol mae tua 80% o'r plant sydd yn y ddalfa heb eu dedfrydu.

Argymhellion

Dylai'r Parti Gwladol amddiffyn buddsoddiad mewn gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliaeth er mwyn lleihau ymhellach nifer y plant sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid, a dylai gyflwyno rhagdybiaethau statudol yn erbyn cadw plant yn gaeth, ac eithrio lle bo angen gwneud hynny i amddiffyn y cyhoedd rhag niwed difrifol.

Dylai'r Parti Gwladol gynnal adolygiad o'r rhesymau pam mae nifer anghymesur o blant Du ac o Leiafrifoedd Ethnig (BME), plant sy'n derbyn gofal/rhai sy'n gadael gofal a phlant â niwroanabledd yn y ddalfa.

h. Wrth i niferoedd y plant yn y ddalfa leihau, mae rhai unedau wedi cael eu dadgomisiynu, ac mae perygl bod plant yn cael eu cadw'n bellach fyth o'u cartref. Cefnwyd ar darged Bwrdd Cyfiawnder Cymru a Lloegr y dylid cadw plant o fewn 50 milltir i'w cartref. Mae hyn yn groes i egwyddor Erthygl 40 o'r Confensiwn, sef y dylai'r system roi ystyriaeth i oed y plentyn a pha mor ddymunol yw hybu ailintegreiddio'r plentyn, ac yn arbennig argymhelliad y Pwyllgor yn Sylw Cyffredinol Rhif 10, sef (paragraff 87) er mwyn hwyluso ymweliadau, dylid lleoli'r plentyn mewn cyfleuster sydd mor agos â phosibl i breswylfa ei d/theulu.

---

[132] *Nobody made the connection: the prevalence of neurodisability in young people who offend* (CCE, 2012)
[133]

Argymhellion

Yn unol â Sylw Cyffredinol Rhif 10, ac er mwyn hwyluso ymweliadau, dylai plant sy'n cael eu cadw'n gaeth gael eu lleoli mor agos â phosibl at breswylfa eu teuluoedd, cyhyd â bod hynny'n briodol iddynt fel arall.

Dylai cyfleusterau'r ddalfa fod yn briodol ar gyfer oedran ac anghenion y plant a gedwir yno. Ni ddylai cyfleusterau tebyg i garcharau oedolion megis Sefydliadau Troseddwyr Ifanc gael eu defnyddio ar gyfer plant.

i. Nid yw gofyniad Erthygl 37(c) o'r Confensiwn, bod plant yn cael eu gwahanu oddi wrth oedolion ym mhob safle lle cânt eu cadw, ac eithrio er eu lles pennaf, wedi cael ei weithredu'n llawn yn y ddalfa. Mae plant sy'n cael eu cludo i Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ac oddi yno yn cael eu symud mewn cerbydau â chelloedd, sy'n **amhriodol ar** gyfer oed a datblygiad plant, a gall oedolion gael eu cludo yn yr un cerbyd. Mae pryderon yn parhau nad yw merched o dan 18 yn cael eu gwahanu oddi wrth fenywod sy'n oedolion yn yr Alban (heblaw am y ffaith nad ydynt yn rhannu celloedd gyda nhw). Mewn rhai Sefydliadau Troseddwyr Ifanc mae carchar oedolion ar yr un safle/yn ymyl, ac mae gwahanu llwyr yn anodd iawn ei sicrhau. Mae cadw plant mewn lleoliadau sydd â charchar oedolion ar yr un safle yn gallu arwain hefyd at fynediad cyfyngedig i'r awyr agored a gweithgareddau hamdden er mwyn sicrhau bod y gwahanu'n parhau. Yng Ngogledd Iwerddon mae'r holl blant sydd yn y ddalfa yn cael eu cadw yn y Ganolfan Cyfiawnder Ieuenctid; fodd bynnag, mater polisi yw hwn, ac nid yw gwahanu plant ac oedolion wedi'i warantu yn y ddeddfwriaeth.

Argymhellion

Yn unol ag Erthygl 37(c) o'r Confensiwn, dylai'r Parti Gwladol sicrhau bod plant yn cael eu gwahanu oddi wrth oedolion wrth eu cadw'n gaeth, ac eithrio er eu lles pennaf. Ni ddylai plant gael eu hebrwng mewn cerbydau sy'n cynnwys celloedd, ac ni ddylid eu hebrwng gydag oedolion na'u cadw ar yr un safle, ac eithrio lle bo hynny er eu lles pennaf.

j. Yng Nghymru a Lloegr mae'r addysg y gellir ei hawlio yn y ddalfa wedi cael ei chynyddu'n ddiweddar i 30 awr yr wythnos i blant; mae hyn i'w groesawu, ond rydym yn dal i ddisgwyl i hyn gael ei weithredu'n llawn. Fodd bynnag, ni fydd nifer sylweddol o blant yn derbyn y ddarpariaeth hon oherwydd eu bod – yn swyddogol neu'n answyddogol – wedi'u hynysu oddi wrth eu cyfoedion, ac mewn nifer o achosion yn cael eu cadw'n gaeth ar eu pen eu hunain, cam sydd wedi'i wahardd i blant o dan Erthygl 37 o'r Confensiwn, Erthygl 16 o Gonfensiwn y CU yn erbyn Artaith, a Sylw Cyffredinol Rhif 10 (paragraff 89). Mae gan Sefydliadau Troseddwyr Ifanc unedau gwahanu fel y rhai mewn carcharau i oedolion lle gall caethiwo pobl mewn celloedd – er enghraifft i gynnal 'trefn a disgyblaeth dda' – ddigwydd am fwy na 22 awr y dydd, a pharhau am

gyfnodau estynedig; mae rhai plant hefyd yn cael eu caethiwo yn eu celloedd eu hunain naill ai at ddibenion rheoli risg/ymddygiad neu oherwydd prinder staff.

Argymhellion

Ni ddylai unrhyw blentyn gael ei gaethiwo ar ei b/phen ei hun o dan unrhyw amgylchiadau.

Dylai pob plentyn sy'n cael eu cadw'n gaeth dderbyn darpariaeth addysg, iechyd ac amddiffyn plant sy'n cyfateb i'r hyn sydd ar gael yn y gymuned.

Dylai plant sy'n cael eu cadw'n gaeth fwynhau'r holl hawliau a roddir iddynt o dan y Confensiwn, heb i'w caethiwed amharu ar hynny o reidrwydd.

k. Nid yw ataliaeth mewn lleoliadau lle cedwir plant yn gaeth yn cael ei chyfyngu i amgylchiadau "lle mae'r plentyn yn achosi bygythiad uniongyrchol o anaf iddo/iddi ei hun neu eraill, a dim ond pan fo pob dull rheoli arall wedi methu." Yng Nghymru a Lloegr mae hefyd ar gael i atal bygythiadau anuniongyrchol o ran anaf, difrod i eiddo neu ddianc ac, mewn sefydliadau Troseddwyr Ifanc, i hybu "trefn a disgyblaeth dda". Mae'r system ataliaeth newydd ar gyfer Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Caeth (Rheoli a Lleiafu Ataliaeth Gorfforol – MMPR) yn cynnwys technegau 'tynnu sylw â phoen' sy'n golygu achosi poen i blentyn yn fwriadol. Nid yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi adolygiad annibynnol cyflawn o MMPR eto.

Argymhelliad

Ni ddylid defnyddio ataliaeth ond pan fo'r plentyn yn achosi bygythiad uniongyrchol o anaf iddo/iddi ei hun neu i eraill, a dim ond pan fo pob dull rheoli arall wedi methu. Dim ond technegau y profwyd eu bod yn ddiogel i blant y dylid eu defnyddio, ac ni ddylid byth achosi poen yn fwriadol er mwyn atal plentyn.

Plant sy'n destun rheolaeth fewnfudo

l. Yn dilyn ymgyrch a gefnogwyd yn eang yn erbyn cadw plant yn gaeth am gyfnod amhenodol mewn cyfleusterau mewnfudo, roedd cytundeb clymblaid Mai 2010 yn cynnwys ymrwymiad i roi terfyn ar gadw plant yn gaeth at ddibenion mewnfudo. Yn dilyn adolygiad cyhoeddus, cyhoeddwyd y broses newydd ar gyfer gorfodi teuluoedd i symud ym mis Rhagfyr 2010. Nod y dull newydd oedd annog teuluoedd i gydymffurfio â chyfarwyddiadau i ymadael yn gynharach, gan roi mwy o reolaeth iddynt dros amgylchiadau eu hymadawiad.

m. Nid yw plant bellach yn cael eu cadw'n gaeth yng Nghanolfannau Symud Mewnfudwyr Yarl's Wood neu Dungavel, ond gellir eu cadw'n gaeth yn Cedars am gyfnodau byr fel rhan o'r broses o symud teuluoedd, a hefyd, mewn achosion o wrthod mynediad, yn Tinsley House, neu am amrywiaeth o resymau mewn cyfleusterau cadw tymor byr mewn porthladdoedd a meysydd awyr wrth iddynt gyrraedd y Deyrnas Unedig.[134] Ymhellach, gellir cadw plant y mae anghytuno ynghylch eu hoed mewn cyfleusterau symud mewnfudwyr sy'n oedolion, a gellir eu cadw'n ynysig nes y ceir penderfyniad ynghylch eu hoed. Mae sefyllfa'n dal i fodoli, felly, lle nad yw plant yn cael eu cadw'n gaeth dim ond pan fydd popeth arall wedi methu neu am y cyfnod byrraf sy'n briodol.

Argymhelliad

Dylai'r Parti Gwladol ymatal, fel mater o bolisi, rhag cadw plant heb eu hebrwng yn gaeth o dan unrhyw amgylchiadau, a sicrhau ar frys yr hawl i herio cyfreithlondeb eu cadw'n gaeth, gan gydymffurfio ag erthygl 37 o'r Confensiwn. Beth bynnag yw'r sefyllfa, rhaid i gaethiwo fod yn fesur i'w ddefnyddio pan fydd popeth arall wedi methu, ac am y cyfnod byrraf sy'n briodol.

n. *Er bod y broses newydd o symud teuluoedd* wedi lleihau nifer y teuluoedd sy'n cael eu cadw'n gaeth a'u symud o'r Deyrnas Unedig trwy orfodaeth, rydym yn pryderu nad yw lles pennaf plant bob amser yn cael ei ystyried gan wneuthurwr penderfyniadau annibynnol cyn i'r symud ddigwydd, yn arbennig lle nad yw eu buddiannau o reidrwydd yr un fath ag eiddo aelodau eraill y teulu. Mae diddymu cymorth cyfreithiol mewn achosion mewnfudo nad ydynt yn ymwneud â lloches wedi peri i hyn waethygu. Rydym hefyd yn dal i bryderu nad yw plant bob amser yn derbyn meddyginiaeth briodol, cofnodion meddygol a/na dogfennau adnabod cyn eu symud.

Argymhellion

Dylai'r Parti Gwladol sicrhau bod lles pennaf pob plentyn yn cael ei ystyried yn annibynnol ac yn unigol fel prif ystyriaeth cyn eu symud neu eu halltudio o'r Deyrnas Unedig dan orfodaeth.

Dylai unrhyw achos o symud neu alltudio plentyn o'r Deyrnas Unedig ddigwydd gyda mesurau diogelu digonol, gan gynnwys asesiad annibynnol o'r amodau wrth iddynt gyrraedd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu goroesi a dablygu. Dylid darparu dogfennau adnabod ar eu cyfer bob amser, yn ogystal ag unrhyw feddyginiaeth/frechiadau y mae angen meddygol amdanynt.

o. Ym mis Ionawr 2013 gwnaeth cyfreithwyr gais am Adolygiad Barnwrol o bolisi/diffyg polisi'r Ysgrifennydd Cartref yng nghyswllt defnyddio grym yn erbyn plant a benywod beichiog gan swyddogion y ddalfa fewnfudo (gan gynnwys darparwyr gwasanaeth wedi'u contractio allan) yn ystod y broses o'u symud. Cyn y gwrandawiad, derbyniodd yr Ysgrifennydd Cartref nad oedd geiriad presennol y polisi yn cyfiawnhau defnyddio

134

grym yn erbyn plant o dan ddeunaw oed pan nad oedd risg o niwed. Hefyd yn y datganiad o resymau, dywedodd yr Ysgrifennydd Cartref ei bod hi wrthi'n ailddrafftio'r polisi.

Argymhelliad

Ni ddylid defnyddio ataliaeth yn achos plant a benywod beichiog ond pan fo'r plentyn neu'r fenyw yn achosi bygythiad uniongyrchol o anaf iddo/iddi ei hun neu eraill, ac nid i orfodi rheolaeth fewnfudo. Dim ond technegau y profwyd eu bod yn ddiogel i blant/fenywod beichiog y dylid eu defnyddio, ac ni ddylid byth achosi poen yn fwriadol er mwyn atal plentyn/benyw feichiog.

p. Bu'r arfer hirsefydledig oedd gan swyddogion mewnfudo o gasglu gwybodaeth gan blant heb eu hebrwng wrth iddynt gyrraedd, cyn iddynt gael mynediad at gyfreithiwr na chael eu cyfeirio at y gwasanaethau plant, yn destun craffu yn y Llys Apêl yn *R [on the application of AN [A child] and FA [A child] v Secretary of State for the Home Department*, a chafwyd dyfarniad na ddylid rhoi llawer o bwys ar wybodaeth a gasglwyd felly at ddibenion unrhyw benderfyniad terfynol.

q. Yn fuan cyn y dyfarniad yn *AN & FA* roedd CCE wedi cyhoeddi *Landing in Dover* oedd yn rhoi sylw i'r un mater yng nghyd-destun y cyfweliadau sgrinio sy'n cael eu cynnal mewn porthladdoedd mynediad. Ar ôl ei gyhoeddi, ysgrifennodd y Gweinidog at y Comisiynydd ym mis Chwefror 2012, yn derbyn argymhelliad canolog yr adroddiad, ac yn darparu ar gyfer cyfnod o ymadfer a chyfle i roi cyfarwyddyd i gynrychiolydd cyfreithiol cyn y cyfweliad sgrinio. Dyma un o'r ychydig ddatblygiadau cadarnhaol sydd wedi digwydd yng nghyswllt plant heb eu hebrwng yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn ar CCUHP.

Argymhelliad

Rhaid i drefniadau lleol mewn ardaloedd sydd â phorthladdoedd mynediad sicrhau bod plant heb eu hebrwng yn cael mynediad at gynrychiolydd cyfreithiol cyn eu sgrinio, a'u bod yn cael eu hebrwng gan gynrychiolydd cyfreithiol ac oedolyn priodol i'r cyfweliad sgrinio.

r. Mae oed plant sy'n ceisio lloches ar eu pennau eu hunain yn dal yn destun dadlau gan swyddogion Fisâu a Mewnfudo'r Deyrnas Unedig (UKVI) a chan Awdurdodau Lleol, y mae eu gwasanaethau plant yn gyfrifol am ddarparu llety a chefnogaeth iddyn nhw. Gall anghytundeb ynghylch oed ddigwydd naill ai pan wrthodir derbyn bod yr ymgeisydd o dan oed, neu pan dderbynnir hynny, ond nid yr oed honedig. Lle bo penderfyniadau'n anghywir, mae hawliau plant o dan CCUHP yn cael eu negyddu'n llwyr neu'n rhannol. Mae plant y mae anghytuno ynghylch eu hoed yn parhau i gael eu cadw mewn cyfleusterau lle cedwir oedolion, eu gwasgaru i lety oedolion, ac amddifadir hwy o'r mesurau diogelu gweithdrefnol sy'n gymwys i blant sy'n hawlio lloches. Cyhoeddir ystadegau cenedlaethol ynghylch niferoedd yr achosion sy'n destun anghytundeb gan UKVI, ond mae'r rhain yn dal i eithrio achosion lle mae ymgeiswyr yn honni bod yn blant, ond yn cael eu trin fel oedolion ar y sail bod eu golwg a'u hosgo yn awgrymu'n gryf eu bod gryn dipyn dros 18 oed. Nid yw'r Adran Addysg yn gofyn bod

awdurdodau lleol yn darparu ffigurau ynghylch niferoedd yr ymgeiswyr am loches y mae anghytundeb ynghylch eu hoed sy'n gwneud cais am eu gwasanaethau, ac mae gan awdurdodau lleol ddulliau anghyson o gofnodi anghytundeb ynghylch oed.

s. Yn Lloegr, o dan adain Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant, mae grŵp amlasiantaeth sy'n cynnwys y Llywodraeth Ganolog, Llywodraeth Leol a chyrff anllywodraethol wedi bod yn cwrdd i adolygu trefniadau asesu oed cyfredol. Mae'r fforwm wedi cynhyrchu 'canllawiau gweithio ar y cyd' diwygiedig rhwng y Swyddfa Gartref ac Awdurdodau Lleol, yn nodi sut mae anghytundeb rhwng yr awdurdodau lleol ynghylch oed i gael eu datrys. Mae'r fforwm hefyd wedi cynhyrchu canllawiau arfer anstatudol ar gyfer awdurdodau lleol, i'w cynorthwyo i ddarparu asesiadau oed teg a chyson lle ceir amheuaeth. Nid yw ymdrechion i ehangu sylfaen y gweithwyr proffesiynol sy'n cyfrannu at asesiadau oed awdurdodau lleol trwy sefydlu canllawiau i bediatregwyr wedi bod yn llwyddiannus hyd yma, yn sgîl diffyg cyllid gan y Llywodraeth.

Argymhellion

Dylai Fisâu a Mewnfudo'r Deyrnas Unedig ddarparu gwybodaeth am y rhai sy'n honni bod yn blant ond sy'n cael eu trin fel oedolion, gan greu categori newydd yn yr ystadegau mudo cenedlaethol.

Dylai Parti Gwladol y Deyrnas Unedig ofyn bod awdurdodau statudol yn cyflwyno ffigurau ynghylch niferoedd y bobl ifanc heb eu hebrwng a) sy'n honni bod yn blant, ond y gwrthodir gwasanaethau iddynt ar y sail y credir eu bod yn oedolion a; b) y credir eu bod yn blant, ond na chredir eu hoedran honedig.

Dylai Parti Gwladol y Deyrnas Unedig ariannu Coleg Brenhinol Pediatreg a Iechyd Plant i gynhyrchu canllawiau i bediatregwyr ynghylch sut gallan nhw gyfrannu at asesiadau oed a gynhelir gan awdurdodau lleol.

t. Yng Nghymru a Lloegr, mae plant mudol yn debygol o ddioddef effaith anghymesur yn sgîl cyfyngiadau ar dderbyn i'r ysgol yn ystod y flwyddyn; mae adroddiad diweddar wedi canfod bod 20,000 o blant yn dal heb eu lleoli ar ôl tymor ysgol llawn.[135] Rydym hefyd yn pryderu ynghylch y goblygiadau o ran hawliau plant mudol i fywyd a'r datblygiad gorau, ac i'r safon iechyd uchaf posibl, darpariaethau Deddf Mewnfudo 2014 ar gyfer gordal iechyd o £150-£200 y flwyddyn, sy'n daladwy gan ymwelwyr o'r tu allan i Ardal Economaidd Ewrop i'r Deyrnas Unedig, os ydynt yn aros am fwy na 6 mis[136] a

[135] Rodda, M. gyda Hallgarten J. a Freeman, J. (2013) *Between the Cracks: Exploring in-year admissions in schools in England* RSA https://www.thersa.org/about-us/media/2013/07/devastating-impact-of-moving-school-revealed/

[136] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/415129/Surcharge_custome

chynigion gan yr Adran Iechyd i godi 150% o gostau eu triniaeth feddygol ar ymwelwyr o'r tu allan i Ardal Economaidd Ewrop.

u. Yn yr Alban, mae teuluoedd sy'n ceisio lloches yn parhau i fyw ar incwm isel iawn, ac maen nhw'n cael eu gorfodi i newid llety'n rheolaidd. Gall hyn atal plant rhag ymgartrefu yn eu hysgol leol a'u cymuned, neu gall alw am deithiau cymudo hir nad ydynt yn fforddiadwy i deuluoedd sy'n ceisio lloches. Nid yw benywod sy'n ceisio lloches a wrthodwyd fel arfer yn gallu hawlio unrhyw gefnogaeth ariannol yn ystod 34 wythnos cyntaf eu beichiogrwydd. Mae hyn yn golygu eu bod yn wynebu risg fwy o ddioddef cyni.[137] Yng Ngogledd Iwerddon mae pryderon yn parhau ynghylch rhwystrau i wasanaethau iechyd, darpariaeth addysg a chymorth lles a wynebir gan blant a theuluoedd sy'n ceisio lloches, sy'n fudol ac sy'n ffoaduriaid.

v. Amlygodd marwolaeth Plentyn EG yn Llundain yn 2010 yn sgîl diffyg bwyd a hylif y problemau wrth symud o Wasanaeth Cefnogi Lloches Cenedlaethol i fudd-daliadau lles prif ffrwd.[138] Mae ymchwil ddiweddar gan Brifysgol Rhydychen yng Nghymru a Lloegr wedi amlygu bod amcangyfrif o 5,900 o blant wedi cael eu cefnogi gan **awdurdodau** lleol o dan ddyletswyddau adran 17 o'r Ddeddf Plant yn 2012/13 oherwydd cyni, heb gyllid penodol gan y llywodraeth ganolog. Gallai'r cyfraddau cynhaliaeth a delid fod mor isel ag ychydig dros £1 y person, y dydd.[139]

Argymhelliad

Dylai'r Parti Gwladol sicrhau bod plant mudol, ffoaduriaid a rhai sy'n ceisio lloches yn cael mynediad i wasanaethau sylfaenol megis addysg a iechyd, ac nad oes camwahaniaethu yn y budd-daliadau y gall y teuluoedd hyn eu hawlio a allai effeithio ar blant neu fod yn groes i'w hawliau o dan Erthyglau 2, 22, 26 neu 27 o CCUHP.

w. Hyd y gwyddom, ni wnaed cynnydd ers yr Adroddiad Cyfnodol diwethaf ar yr argymhellion canlynol, ac rydym yn credu, felly, y dylid eu hailadrodd:

Argymhellion

Dylai'r Parti Gwladol ddarparu data ystadegol wedi'i dadelfennu ar nifer y plant sy'n ceisio lloches, gan gynnwys y rhai y mae dadlau ynghylch eu hoed;

Dylai'r Parti Gwladol newid adran 2 o Ddeddf Lloches a Mewnfudo (Triniaeth Hawlwyr ac ati) 2004 er mwyn caniatáu amddiffyniad wedi'i gwarantu i blant sy'n dod i'r Deyrnas Unedig heb ddogfennau mewnfudo dilys.

---

r_info_web_v1.2.pdf Mae eithriadau, er enghraifft, yn achos ceiswyr lloches, dioddefwyr masnachu pobl a phlant sy'n derbyn gofal.

[137] Da Lomba a Murray (2014), *Women and Children First? Refused asylum seekers' access to and experiences of maternity care in Glasgow*, Glasgow: Prifysgol Strathclyde a Chyngor Ffoaduriaid yr Alban, t. 15 ymlaen.

[138] **https://www.westminster.gov.uk/sites/default/files/uploads/workspace/assets/publications/EG-Executive-Summary-April-2012-1336483036.doc**

[139] **http://www.ox.ac.uk/news/2015-06-03-children-poverty-due-uk-government%E2%80%99s-%E2%80%98dysfunctional-system%E2%80%99**

11. Diweddglo

a. Mae'r Comisiynwyr Plant yn hapus i gynorthwyo'r Pwyllgor gydag unrhyw geisiadau am wybodaeth bellach sy'n deillio o'r adroddiad hwn, ac yn edrych ymlaen at ymgysylltu â'r Pwyllgor yn y gweithgor cyn-sesiynol ym mis Hydref 2015.